Polisi Byw UCM Cymru
2015 – 2017

Awdur a Theitl Swydd:	Daniel Meehan, Ymgynghorydd Polisi a Llywodraethiant
Dyddiad cynhyrchu:	21/03/2017
Dyddiad y cyfarfod:	Ddim yn berthnasol
Cyfarfod:	Ddim yn berthnasol
Gweithredu:	Nodi
Crynodeb	Mae'r papur hwn yn cynnwys holl bolisi byw a gytunwyd gan Gynhadledd UCM Cymru 2015, 2015 a 2017.
Cyhoeddi:	I'w gyhoeddi a'i ddosbarthu ymysg undebau myfyrwyr.

Polisi

Polisïau a basiwyd yng Nghynhadledd Cymru 2017	**13**
Polisïau a basiwyd yng Nghynhadledd Cymru 2016	**17**
Polisïau a basiwyd yng Nghynhadledd Cymru 2015	**18**

Diben y ddogfen hon
Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr holl bolisïau sydd mewn grym ar gyfer gwaith Cymru. Dyma'r polisïau y mae Llywydd a Dirprwy Lywydd UCM Cymru a Phwyllgor Gwaith UCM Cymru yn gyfrifol am eu rhoi ar waith. Weithiau fe'u gelwir yn 'Bolisi Byw'.

Polisïau sy'n darfod
Bydd polisi'n darfod dan yr amgylchiadau:

1. Os bydd polisi diweddarach yn drech;
2. Ar ôl 3 blynedd, oni fydd Cynhadledd UCM Cymru yn pleidleisio i'w adnewyddu. Bydd polisïau a basiwyd yng Nghynhadledd UCM Cymru 2015 yn darfod ar ddiwedd Cynhadledd UCM Cymru 2018.

Yr hyn sydd angen i chi ei wneud
Os ydych yn ystyried cyflwyno polisi i Gynhadledd UCM Cymru, dylech wirio a oes unrhyw bolisi 'byw' sy'n ymwneud â'r mater hwnnw ac a fydd angen i chi newid safiad presennol UCM Cymru ar y gwaith hwnnw.

Os oes angen y ddogfen hon ar ffurf wahanol arnoch, mae croeso i chi gysylltu â office@nus-wales.org.uk.

Cynnwys

Polisïau a basiwyd yng Nghynhadledd Cymru 2017 4

Brexit: Sicrhau'r canlyniad gorau i Gymru 4

Ni ddylai ffioedd dysgu gynyddu'n unol â'r FfRhA yng Nghymru 5

Diamond; sicrau system gyllido sy'n gweithio ar gyfer Cymru 1

Cynhaliaeth Ariannol i Fyfyrwyr Hŷn (AB) 1

Bargen deg i fyfyrwyr sy'n gofalu 2

Mynd i'r Afael â Gwrth-Semitiaeth 3

Peidiwch â gadael myfyrwyr AB ar ôl 4

Rhoi myfyrwyr wrth galon y sector ôl-orfodol 1

Beth am Drafod yr Eliffant yn yr Ystafell? 1

Cynnig i gael UCM Cymru i osod pwysedd ar CCAUC i gael gwared â'r mesur 5 credyd fel ffordd o fesur perfformiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 1

Cynnig TGAU 2

Mynediad i Addysg Gyfrwng-Cymraeg 3

Sicrhau'r fargen orau i brentisiaid! 4

Polisïau a basiwyd yn y Gynhadledd Cymru 2016 5

Cynnig i gefnogi'r ymgyrch dros sicrhau bod Prydain yn aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd 5

Rheolau Rhyngweithio 6

Pleidlais yn 16 7

Cynrychioli ein Haelodaeth 8

Gordal y GIG 9

Cyfansoddiad UCMC 10

System addysg deg, wedi'i chyllido'n gyfiawn 11

Wythnos Myfyrwyr yn Gwirfoddoli 12

UCM Digidol yn cydnabod yr angen am ddwyieithrwydd 13

Mynediad cyfartal i geiswyr lloches 14

Cydnabod Addysg Nad yw'n Ffurfiol 15

Y trobwynt 16

Draig Swper Ffynci 17

CGyP yn cymryd drosodd 18

Cael Pethau wedi'u Gwneud 19

Achubwch Gymru rhag Toriadau i Fwrsariaethau Myfyrwyr 20

Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ailsefydlu cyllid S4C 21

Polisïau a basiwyd yng Nghynhadledd Cymru 2015 22

Rhoi'r Ffync yn ôl i'r Ddraig 22

Dim TGAU i Chi 23

Mae'n Amser am Ymgyrch Tai 24

Datganoli sy'n gweithio ar gyfer Cymru 25

Cymwysterau Cymru a'r Fagloriaeth Gymreig 26

Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yng Nghymru 27

Marciwch fy Ngeiriau, Nid fy Enw 28
Mae prentisiaid yn gwybod beth sydd orau! 29
Mae Cymru angen system fenthyciadau ar gyfer ôl-raddedigion..... 30
Arian yn yr Atig 31
Nid yw LCA a GDLlC yn ddigon da!..... 32
Mae myfyrwyr yn ddefnyddwyr gwasanaethau hefyd 33
Gad i ni siarad am ryw, cariad!..... 34
Lleoliad Digwyddiadau UCM Cymru 35
Diddymu Troseddau Casineb yng Nghymru 36
Mae Deddf 1994 yn Peri Problemau..... 37
Creu mandad i weithredu ar doriadau i'r LMA 38
Cefnogaeth arbenigol wedi ei hymchwilio ar gyfer sefydliadau sy'n uno 39

Polisïau a basiwyd yng Nghynhadledd Cymru 2017

Brexit: Sicrhau'r canlyniad gorau i Gymru

Cyflwynwyd gan: Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol UCM Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. Mae'r UE wedi darparu manteision dirifedi i'r sector addysg ôl-orfodol yng Nghymru.
2. Astudiodd 25,000 o fyfyrwyr y DU yn yr UE, neu bu iddynt ymgymryd â lleoliadau gwaith, fel rhan o gynllun Erasmus+ yn 2015/16. Ers 2014, mae Erasmus+ wedi cynnwys myfyrwyr ysgolion y DU, gwirfoddolwyr a phrentisiaid, ac mae'n buddsoddi bron i £100 miliwn bob blwyddyn mewn symudedd y DU yn Ewrop [1]
3. Mae tystiolaeth bod y gallu i astudio dramor o fudd hir dymor i'r unigolion hynny sy'n cyfranogi - o ran eu cyflogaeth yn y dyfodol, ac o ran datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddiwylliannau a chymdeithasau eraill. [2]
4. Mae Prifysgolion y DU yn derbyn 15% ychwanegol mewn cyllido ar gyfer ymchwil gan yr Undeb Ewropeaidd (UE), yn ychwanegol i gyfraniadau gan Lywodraeth y DU [3]
5. Ers cyhoeddi canlyniad y refferendwm, rydym wedi gweld cynnydd difrifol a brawychus mewn troseddau casineb ym Mhrydain. Yn y mis ar ôl y bleidlais i adael yr UE, mae ffigurau diweddaraf yr heddlu'n dangos bod achosion o ymosodiadau geiriol, hiliol neu grefyddol, yn Lloegr a Chymru wedi cynyddu 41%. [4]
6. Dylai'r DU barhau i fod yn bartner cydweithredol â gwledydd yr UE i hyrwyddo hawliau dynol, heddwch a sefydlogrwydd, yn ogystal â'r rhyddid i symud o fewn yr UE a ledled y byd.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid lobïo Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn galw am y fargen orau i fyfyrwyr wrth geisio dylanwadu ar broses Brexit, gan gynnwys galw am ryddid symudedd a pharhau i fod yn y farchnad sengl.
2. Dylid gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gan fyfyrwyr Cymru yn y sector ôl-orfodol fynediad i raglen symudedd allanol. [5]
3. Dylid mynd ati'n rhagweithiol i ymgysylltu â'r Undeb Myfyrwyr Ewropeaidd ac Obessu, er mwyn sicrhau bod lleisiau myfyrwyr y DU i'w clywed ar lefel Ewropeaidd.
4. Dylid gweithio gyda STAR (Myfyrwyr yn Gweithredu dros Ffoaduriaid) a mudiadau perthnasol, a chynnig ein cefnogaeth i'w hymgyrchoedd.
5. Dylid gweithio gydag UCM y DU i roi cymorth i Undebau Myfyrwyr lobïo eu ASau a'r Llywodraeth, gan alw arnynt i dynnu myfyrwyr rhyngwladol allan o ffigurau net ar gyfer mewnfudo.
6. Dylid gwrthwynebu'n gyhoeddus ac ymgyrchu yn erbyn unrhyw ymgais i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol a chonfensiynau'r UE sy'n amddiffyn hawliau dynol, a'u disodli â'r Bil Hawliau Prydeinig.
7. Dylid gweithio â mudiadau eraill a'n hymgyrchoedd rhyddhad i fynd i'r afael â chamwahaniaethu, rhagfarn a throseddau casineb.

---

[1] erasmusplus.org.uk/key-erasmus-facts-and-figures
[2] http://www.lse.ac.uk/study/generalCourse/PDF/the_benefits_of_a_year_abroad.pdf.
[3] fullfact.org/education/how-much-money-do-british-universities-get-eu/
[4] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/559319/hate-crime-1516-hosb1116.pdf
[5] Os yw San Steffan yn creu cynllun Symudedd Allanol ar gyfer y DU, bydd angen i UCM Cymru weithio gydag UCM y DU i sicrhau ei fod yn un sy'n gweithio dros fyfyrwyr, ac ystyried yn ofalus sut gall Llywodraeth Cymru gynyddu cyfranogiad myfyrwyr Cymru yn y cynllun.

Ni ddylai ffioedd dysgu gynyddu'n unol â'r FfRhA yng Nghymru

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

Cred y Gynhadledd:

1. Mae ffioedd dysgu, sydd wedi treblu ers 2012, ar hyn o bryd yn £9,000 y flwyddyn ar gyfer israddedigion llawn-amser yn y DU.
2. Darllenwyd y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil (Bil AU) am y tro cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ym Mai 2016; mae ar hyn o bryd yn mynd drwy'r pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.
3. Mae'r Bil AU yn cynnwys y Fframwaith Rhagoriaeth mewn Addysgu (FfRhA).
4. Mae'r FfRhA yn fesur sy'n graddio prifysgolion fel Aur, Arian neu Efydd, yn seiliedig ar fetrigau sy'n perthyn i ansawdd addysgu.
5. Bydd Canllawiau Swyddogol FfRhA mewn grym ar gyfer myfyrwyr sy'n mynd i mewn i addysg yn hydref 2017.
6. Bydd y FfRhA yn caniatáu i brifysgolion cymwys gynyddu ffioedd yn unol â chwyddiant. Mae chwyddiant yn y DU wedi codi 2.3% y flwyddyn ar gyfartaledd dros y 10 mlynedd ddiwethaf.
7. Mae prifysgolion yng Nghymru a Lloegr yn cymryd rhan yn y FfRhA, serch hynny dim ond prifysgolion (cymwys) yn Lloegr sy'n bwriadu cynyddu eu ffioedd. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd wedi gosod ffioedd dysgu ar £9,000 yng Nghymru.
8. Mae newyddion diweddar yn awgrymu bod rhai prifysgolion yng Nghymru'n pryderu ynglŷn ag ymddangos yn "eilradd" o gymharu â'r rheiny yn Lloegr sy'n cynyddu eu ffioedd.
9. Nid yw Llywodraeth Cymru ond wedi cadarnhau ffioedd dysgu o £9,000 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/18.
10. Mae rhai prifysgolion yng Nghymru'n hysbysebu'n gyhoeddus bod eu ffioedd am gynyddu yn y dyfodol o bosib, yn unol â pholisi'r llywodraeth.
11. Gallai hyn arwain at gynnydd mewn ffioedd dysgu ym mhrifysgolion Cymru, os yw'r Llywodraeth yn gweld bod sefydliadau yng Nghymru o blaid hynny. Gallai'r cynnydd hwn ddechrau dod i rym yn y flwyddyn academaidd 2018/19.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Golyga cynnydd mewn ffioedd dysgu yng Nghymru'r canlynol:
    a. Bydd myfyrwyr yng Nghymru'n graddio gyda mwy o ddyled.
    b. Caiff y fantais sydd gan brifysgolion Cymru dros y rheiny sydd yn Lloegr ei diddymu.
    c. Gallai ffioedd barhau i gynyddu heb 'uchafswm' gwirioneddol, gan nad yw chwyddiant wedi disgyn yn is na 0% yn yr 20 mlynedd diwethaf.
    d. Caiff myfyrwyr o gefndir llai breintiedig eu darbwyllo'n fwy nag erioed rhag mynd i'r brifysgol.
2. Rhaid i ni feddwl am y cenedlaethau nesaf, a pha mor anhygyrch allai addysg fod iddyn nhw.
3. Er mwyn i'n pryderon gyrraedd Llywodraeth Cymru, rhaid mandadu UCM Cymru i'w lobïo.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Bydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cyflwyno'r cynnig hwn i Gynhadledd Genedlaethol UCM Cymru.
2. Mae'r cynnig hwn yn mandadu UCM Cymru i lobïo Llywodraeth Cymru am ymrwymiad i ddim cynnydd mewn ffioedd am y 7 i 10 mlynedd nesaf.

Diamond; sicrau system gyllido sy'n gweithio ar gyfer Cymru

Cyflwynwyd gan: Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol UCM Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. Mae Cymru angen system Addysg Uwch gynhwysol y gall pawb gael mynediad iddi a llwyddo ynddi.
2. Rhaid i UCM Cymru herio'r ffaith bod addysg yn parhau i fod yn fraint yn hytrach na hawl.
3. Mae costau byw wrth astudio mewn Addysg Uwch yn mynd yn waharddol. Mae'r costau cyfredol yn gyrru myfyrwyr i ddyled breifat, gan beri anawsterau iechyd meddwl, gorfodi myfyrwyr i fyw mewn gorddrafft a chyfyngu myfyrwyr i fyw mewn tai aflan sy'n arwain at broblemau iechyd.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Mae Adolygiad Diamond a'r ymateb a gafwyd gan Lywodraeth Cymru wedi cynnig pecyn cyllido sy'n arloesol; mae'n targedu cymorth at y rheiny sydd fwyaf ei angen, ac mae'n mynd i'r afael â'r materion hynny sy'n ymwneud â chostau byw.
2. Bydd y pecyn cynhaliaeth yn gwneud ehangu mynediad yn bosib.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid bob amser cydnabod nad yw'r system gyfredol yn berffaith, gan mai ein hamcan yn y pen draw yw addysg ddi-dâl i bawb. Rydym yn cydnabod, o fewn yr hinsawdd economaidd gyfredol, bod Diamond yn gam blaengar i'r cyfeiriad cywir. Serch hynny, byddwn yn parhau i lobïo ar elfennau o'r adolygiad y teimlwn y gellid gwella arnynt.
2. Mae angen i ni sicrhau bod llais y myfyriwr wrth galon gweithredu'r system newydd.
3. Mae hefyd angen i ni sicrhau bod UCM Cymru'n parhau i fod yr arbenigwyr ar gyllid myfyrwyr yng Nghymru, fel y gallwn barhau i ymladd dros gynhaliaeth i'r myfyrwyr hynny sydd fwyaf ei angen.
4. Dylid gweithio gydag Undebau Myfyrwyr, cynrychiolydd Cymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru, Llywodraeth Cymru a mudiadau perthnasol i sicrhau bod y pecyn cynhaliaeth i fyfyrwyr sy'n rheini, myfyrwyr ag anableddau, y rheiny sy'n gadael gofal a myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu, yn un sy'n ateb anghenion y myfyrwyr hyn ac yn caniatáu iddynt fynd i mewn i AU os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Cynhaliaeth Ariannol i Fyfyrwyr Hŷn (AB)

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Coleg Cambria

Cred y Gynhadledd:

1. Yr unig gynhaliaeth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr AB hŷn yw Grant Dysgu Llywodraeth Cymru o £1,500 y flwyddyn.
2. Yn wahanol i Loegr, nid oes rhaid i fyfyrwyr yng Nghymru dalu ffioedd dysgu, ond mae llawer yn methu dychwelyd i hyfforddiant / astudio oherwydd anawsterau ariannol.
3. Mae llawer o fyfyrwyr dros 19 oed mewn sefydliadau AB yn methu fforddio byw heb fethu dosbarthiadau er mwyn mynd i weithio.
4. Mae hyn yn arwain ar fyfyrwyr yn methu neu'n gadael cyn iddynt gwblhau eu cyrsiau.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Dylai pob myfyriwr dros 19 oed fod yn gallu derbyn hyfforddiant / astudio i wella eu haddysg a'u rhagolygon ar gyfer canfod gwaith, heb gyfyngiadau ariannol.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid rhoi cymorth i UMau lobïo Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ariannol ar gyfer y rheiny sydd dros 19 yng Nghymru.
2. Gellid gwneud hyn drwy ddarparu benthyciadau cynhaliaeth, tebyg i'r hyn sydd ar gael mewn AU.
3. Dylid galw ar UMau i lobïo eu sefydliad i ddarparu cymorth i'r rheiny sydd dros 19 lle bynnag bo hynny'n bosib.

Bargen deg i fyfyrwyr sy'n gofalu

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Coleg Gŵyr

Cred y Gynhadledd:

5. Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru'n amcangyfrif bod tua 1,600 o fyfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu yn dechrau ar gwrs israddedig bob blwyddyn yng Nghymru. Mae hyn yn gyfystyr â thua 4% o'n holl boblogaeth mewn AU.
6. Y ffurf fwyaf poblogaidd o fudd-dâl a dderbynir gan ofalwyr yw "Lwfans Gofalwyr". Nid yw ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio am fwy na 21 awr yr wythnos (60% dwyster llawn-amser). Mae hyn felly'n gadael llawer o fyfyrwyr sy'n gofalu heb gynhaliaeth ddigonol.
7. Mae Cymru'n fwy dibynnol ar "Lwfans Gofalwyr" o gymharu â rhannau eraill o'r DU.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

2. Roedd Adolygiad Diamond yn edrych ar sut byddai Cymru'n cyllido a chynnal ei myfyrwyr; roedd yn argymell y dylid symud o gymorth i fyfyrwyr drwy'r grant ar gyfer ffioedd dysgu, i gymorth i fyfyrwyr drwy gynhaliaeth.
3. Roedd Adolygiad Diamond hefyd yn argymell gwell cymorth ar gyfer grwpiau wedi'u targedu: myfyrwyr sy'n rheini; myfyrwyr ag anableddau; myfyrwyr sydd â phrofiad o ofal.
4. Nid yw'r argymhelliad uchod yn cynnwys myfyrwyr sy'n darparu gofal.
5. Nid yw myfyrwyr sy'n gofalu ar hyn o bryd yn derbyn cymorth ariannol i gwrdd â chostau eu cyfrifoldebau gofalu. Y ein barn ni, mae hon yn sefyllfa annerbyniol iddynt fod ynddi.

Penderfyna'r Gynhadledd:

4. Bydd UCM Cymru'n lobïo Llywodraeth Cymru i naill ai:
    a. Ymestyn y system newydd arfaethedig ar gyfer cyllido myfyrwyr yn sgil Adolygiad Diamond i gynnwys myfyrwyr sy'n gofalu. Am gost ychwanegol o tua £15 miliwn y flwyddyn, byddai'n golygu £3,250 y flwyddyn i fyfyrwyr sy'n gofalu, wedi'i asesu drwy Gyllid Myfyrwyr Cymru.
    b. Bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ymestyn y Lwfans Gofalwr sydd eisoes ar gael i fyfyrwyr, a gwneud hyn drwy ddileu'r cyfyngiad ar astudio llawn-amser wrth hawlio'r Lwfans. Byddai angen i Lywodraeth y DU ariannu hyn (tua £15 miliwn y flwyddyn yng Nghymru) a gweithredu'r newid ledled y DU, neu fod Llywodraeth Cymru'n ad-dalu'r gost yn uniongyrchol i Lywodraeth y DU.

Mynd i'r Afael â Gwrth-Semitiaeth

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Cred y Gynhadledd:

1. Yn 2016, cofnododd Ymddiriedolaeth Diogeledd Cymunedol, elusen sydd â'r nod o amddiffyn y gymuned Iddewig, 1,309 o achosion gwrth-Semitig, o gymharu â 1,182 yn 2014.
1. Mae gwrth-Semitiaeth yn gyffredin ar draws yr holl sbectrwm gwleidyddol.
2. Roedd llawer o fyfyrwyr Iddewig yn flaenllaw mewn ymgyrchoedd dad-ymaelodi oherwydd pryderon ynglŷn â gwrth-Semitiaeth yn ein mudiad.
3. Ym mis Hydref, cyhoeddodd Pwyllgor Dethol y Swyddfa Gartref adroddiad ar 'Wrth-Semitiaeth yn y DU' oedd yn cynnwys pennod ar 'wrth-Semitiaeth ar y campws'.
4. Mae adroddiad cymdeithas Prifysgolion y DU, Ymchwiliad Chakrabarti, Pwyllgor Dethol y Swyddfa Gartref ac achosion uchel eu proffil yn ddiweddar, yn dwyn sylw at yr angen i wneud mwy i fynd i'r afael â gwrth-Semitiaeth ar y campws.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Mae gan brifysgolion ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau nad yw myfyrwyr yn wynebu camwahaniaethu nag aflonyddu, yn sgil Deddf Gydraddoldeb 2010.
2. Mae gan UCM rôl mewn sicrhau bod polisïau diogelu, gwrth-wahaniaethu ac aflonyddu'n bresennol ar gampysau prifysgolion.
3. Dan ddeddfwriaeth bresennol, diffinir Iddewon fel aelod o hil yn ogystal â chrefydd, ac mae'r heddlu'n cofnodi troseddau yn eu herbyn ar sail hil neu grefydd.
4. Mae gan fyfyrwyr Iddewig yr hawl i ddiffinio'r hyn maen nhw'n ei ystyried i fod yn wrth-Semitiaeth, yn ôl egwyddor Macpherson, sy'n allweddol i weithgareddau UCM.
5. Caiff UCM ei arwain gan ddiffiniad gweithredol Canolfan Fonitro'r UE ar gyfer Gwrth-Semitiaeth, tra bod gwaith diweddar yn y DU wedi canfod bod diffiniad Clymblaid Ryngwladol er Coffáu'r Holocaust yn fwy defnyddiol.
6. Awgrymodd Pwyllgor Dethol y Swyddfa Gartref yn ddiweddar y dylid mabwysiadu diffiniad Clymblaid Ryngwladol er Coffáu'r Holocaust (CRCH) yn ffurfiol gan Lywodraeth y DU, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a phob plaid wleidyddol.
7. Dylai UCM Cymru fod yn flaenllaw mewn annog UCM y DU i gymryd y mater o wrth-Semitiaeth o ddifrif, a chynnig sefyll yn gadarn gyda myfyrwyr Iddewig.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Ymrwymo i fynd i'r afael â phob ffurf o wrth-Semitiaeth.
2. Mabwysiadu diffiniad CRCH o wrth-Semitiaeth, ac annog UMau i wneud yr un peth.
3. Gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr Iddewig ac Ymddiriedolaeth Diogeledd Cymunedol i gynhyrchu fersiwn newydd o 'Arweiniad i Fyfyrwyr ar Wrth-Semitiaeth' ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/18.
4. Lobïo sefydliadau i ddarparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr yn ystod cyfnodau pryd mae tensiynau'n uchel, er mwyn sicrhau bod y campws yn parhau i fod yn lle diogel, teg ac agored i fyfyrwyr oll, beth bynnag fo'u hunaniaeth grefyddol, genedlaethol, ethnig neu hiliol.
5. Darparu hyfforddiant addysgol ar wrth-Semitiaeth fel rhan o hyfforddiant haf y Swyddogion Sabothol.

Peidiwch â gadael myfyrwyr AB ar ôl

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Coleg Sir Gâr

Cred y Gynhadledd:

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r cynllun teithio rhatach Fy Ngherdyn Teithio, sy'n rhoi gostyngiad o draean oddi ar bris tocyn bws i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed.
2. Mae Llywodraeth Cymru'n dweud eu bod nhw'n rhoi'r gorau i'r cynllun oherwydd nad oes llawer o bobl wedi manteisio arno. Yn ôl y Llywodraeth, dim ond 7% o'r rheiny oedd yn gymwys sydd wedi ymuno â'r cynllun. Ond mae eraill wedi awgrymu bod y broblem yn perthyn i sut y cafodd y cynllun ei hysbysebu - ac rydyn ni'n cytuno.
3. Credwn y dylai pawb fod yn gallu cael addysg, beth bynnag fo'u gallu i dalu costau teithio i'r coleg.
4. Canfu ymchwil gan UCM Cymru yn 2014, Punt yn eich Poced, bod chwech o bob deg o fyfyrwyr addysg bellach yn wynebu costau sy'n gysylltiedig â theithio, a bod un o bob pump yn gorfod talu £20 yr wythnos neu fwy.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw teithio ar gyfer dysgwyr ar hyn o bryd. Golyga hyn yn aml fod polisïau trafnidiaeth yn wahanol gan ddibynnu ar ble rydych chi'n byw, gan gynnwys y gost a lefel cymorthdal, y meini prawf cymhwysedd, a'r math o drafnidiaeth a ddarperir.
2. Mae toriadau yng nghyllidebau llywodraeth leol wedi golygu bod trafnidiaeth ar gyfer myfyrwyr addysg bellach yn wynebu risg gynyddol.
3. Bob blwyddyn, mae Undebau Myfyrwyr mewn colegau'n dweud wrthym fod eu myfyrwyr nhw'n fwyaf pryderus ynglŷn â chost cyrraedd campws eu coleg neu leoliad gwaith.
4. Yn Ebrill 2017, bydd yr isafswm cyflog fesul awr ar gyfer prentisiaid yn dal i fod yn ddim ond £3.50. Ond mae ymchwil gan Gymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid yng Nghymru'n awgrymu bod prentisiaid yn talu tua £25 yr wythnos am deithio - sef tua 20% o gyfanswm eu hincwm.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylai UCM Cymru, ynghyd â'r Undebau Myfyrwyr hynny sydd mewn aelodaeth, lobïo Llywodraeth Cymru i gadw Fy Ngherdyn Teithio.
2. Dylai UCM Cymru gynnig cyngor ar sut i hysbysebu Fy Ngherdyn Teithio drwy sefydliadau AB.

Rhoi myfyrwyr wrth galon y sector ôl-orfodol

Cyflwynwyd gan: Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol UCM Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. Rhaid i'r sector addysg ôl-orfodol fod ag anghenion Cymru a myfyrwyr Cymru wrth ei galon, nid y sefydliadau.
2. Mae colegau Addysg Bellach wedi dioddef cwtogi difrifol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gormod o brentisiaid nad ydynt yn ennill digon i fyw arno, ac mae'r gyllideb Addysg Uwch wedi dioddef toriadau sylweddol o un flwyddyn i'r nesaf.
3. Nid yw siarad am gydraddoldeb o ran parch bellach yn ddigon; rhaid i bob llwybr academaidd a galwedigaethol gael ei gyllido a'i gynnal yn gyfartal.
4. Dylai myfyrwyr fod wrth galon llunio eu haddysg eu hunain. Mae hyn yn golygu nid yn unig cynrychiolaeth ar bob bwrdd ac yn ystod prosesau llunio penderfyniadau allweddol, ond hefyd bod myfyrwyr oll yn cael y cyfle i lunio eu haddysg.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Bydd amcan Llywodraeth Cymru o greu un corff i fod yn gyfrifol am reoli a chyllido addysg uwch, addysg bellach a dysgu yn y gweithle'n galluogi ymagwedd gyfannol at y sector addysg ôl-orfodol.
2. Rhaid rhoi terfyn ar y gystadleuaeth rhwng y sectorau addysg bellach ac uwch, a gallai'r weledigaeth gynhwysfawr hon ar gyfer y sector fynd rywfaint o'r ffordd at wneud hyn yn realiti.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid sicrhau bod gan UCM Cymru le fel sylwedydd ar fwrdd unrhyw gorff newydd.
2. Rhaid gweithio gydag Undebau Myfyrwyr a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y corff newydd yn un sydd ag anghenion myfyrwyr yn graidd iddo.
3. Dylid defnyddio'r broses ymgynghori fel ffordd o ymgyrchu dros roi mwy o adnoddau a chefnogaeth i strwythurau llais myfyrwyr ac Undebau Myfyrwyr, yn arbennig mewn AB.
4. Mae Ehangu Mynediad yn un o amcanion craidd CCAUC, a rhaid i ni lobïo i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r corff newydd.

Beth am Drafod yr Eliffant yn yr Ystafell?

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

Cred y Gynhadledd:

1. Mae pob myfyriwr yn haeddu cael lefel uchel o gefnogaeth ar gyfer eu hiechyd meddwl yn ystod eu hamser mewn addysg.
2. Nid yw Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl (CCIM) ar gael yn hawdd yng Nghymru, gan nad oes llawer o gyrsiau hyfforddiant ar gael. Mae costau uchel cyrsiau o'r fath hefyd yn golygu na all mudiadau / sefydliadau fforddio hyfforddi eu staff mewn CCIM heb greu effaith ariannol sylweddol.
3. Dylid darparu mwy o hyfforddiant CCIM i bob aelod staff priodol; megis tiwtoriaid personol, staff cymorth, gwasanaethau llety, diogeledd y safle a.y.b. Mae'n hollbwysig bod unrhyw aelod staff sy'n cael cyswllt rheolaidd â myfyrwyr yn cael hyfforddiant mewn sut i ymdrin yn gywir â myfyrwyr sydd ag iechyd meddwl gwael.
4. Dylid ystyried CCIM i fod mor bwysig â chymorth cyntaf corfforol - yn y gweithle, mae'n angenrheidiol dan y gyfraith bod nifer o aelodau'r tîm wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf corfforol, ond nid oes unrhyw ofynion o'r fath ar gyfer CCIM.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Mewn astudiaeth yn 2011 ar y 'Heriau Mawr' mewn iechyd meddwl myfyrwyr, nodod *Student Minds* y 10 rhwystr mwyaf oedd yn atal myfyrwyr rhag cael gafael ar gymorth iechyd meddwl - roedd y rhain yn cynnwys: dealltwriaeth gyffredinol wael ynglŷn â phroblemau iechyd meddwl, ofn cael eu beirniadu, straen a chael hyd i'r hyder i ofyn am help.
2. Mae *Student Minds* hefyd yn nodi bod 'Ymchwil yn amcangyfrif bod tua 29% yn cael profiad o ofid meddyliol, serch hynny mae'r ystadegau ar gyfer hyn yn amrywio'n fawr.'
3. Mewn arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Undeb Myfyrwyr Aberystwyth, dywedodd 72% o'r myfyrwyr a holwyd eu bod wedi cael problemau â'u hiechyd meddwl yn ystod eu hamser ym Mhrifysgol Aberystwyth. O'r 72%, dywedodd 70% nad oeddent yn fodlon â'r lefel o gefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl oedd ar gael.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylai UCM Cymru lobïo i wneud CCIM yn fwy hygyrch, yn arbennig ar gyfer sefydliadau addysgol ac Undebau Myfyrwyr.
2. Dylid lobïo'r llywodraeth a sefydliadau addysgol i annog gosod cymorth iechyd meddwl yn uwch ar yr agenda yn y gweithle. Yn ddelfrydol, dylai CCIM fod yn orfodol dan y gyfraith, ynghyd â chymorth cyntaf corfforol.
3. Dylid codi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwysigrwydd cymorth iechyd meddwl i fyfyrwyr, ac ymgyrchu i roi terfyn ar y stigma sy'n perthyn i iechyd meddwl.

Cynnig i gael UCM Cymru i osod pwysedd ar CCAUC i gael gwared â'r mesur 5 credyd fel ffordd o fesur perfformiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

Cred y Gynhadledd:

1. Mae UCMC yn credu mewn addysg gynhwysfawr sy'n golygu bod pob un myfyriwr yn gallu llwyddo mewn byd addysg pa bynnag gefndir maent yn dod ohono.
2. Bod angen bod yn uchelgeisiol gydag addysg Gymraeg, ac mae gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn hanfodol i ddatblygiad addysg Gymraeg fel ffordd o ddatblygu addysg gynhwysfawr.
3. Yn ôl strategaeth y Llywodraeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae rôl addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig fel bod modd o gael pobl i ddefnyddio'r iaith ac i gyrraedd y targed o filiwn.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Nad yw'r mesur perfformiad Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda 5 credyd yn mesur addysg Gymraeg yn iawn oherwydd nid oes cofnod o sut mae sefydliadau dehongli ac adrodd ar 5 credyd. O ganlyniad mae'n creu ffigyrau uwch na mesuryddion eraill gan greu ffigyrau di-sylwedd.
2. Dyw'r mesur 5 credyd yn dadansoddi addysg Cymraeg mewn ffordd realistig gan fod 5 credyd yn cyfateb i 4.1% o faint mae myfyrwyr yn ei astudio.
3. Nid yw'n cyfateb i weithredoedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda'r Coleg yn dyfarnu ysgoloriaethau ar sail myfyrwyr yn astudio 40 credyd o'u hastudiaethau drwy'r Gymraeg bob blwyddyn (Ysgoloriaethau Cymhelliant) ac 80 credyd o'u hastudiaethau drwy'r Gymraeg bob blwyddyn (Prif Ysgoloriaethau).

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Mynegi anfodlonrwydd gyda 5 credyd fel y mesurydd ar gyfer astudio drwy'r Gymraeg yn y FfRhA.
2. Bod y mesur 5 credyd mae HEFCW dyfarnu gwaith Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn anaddas gan nad yw'n mesur perfformiad y Coleg yn gywir. A dylai UMC Cymru pwyso ar HEFCW i stopio defnyddio 5 credyd i ddyfarnu.
3. Dylai ymgynghori gyda HEFCW i edrych ar fesur perfformiad Gwaith Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac edrych ar y posibiliadau o fesur gyda chredyd 40 a 80 sy'n debygech i strwythur astudio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cynnig TGAU

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Coleg Cambria

Cred y Gynhadledd:

1. Mae cyfle i ail-sefyll TGAU mewn Saesneg a Mathemateg yn ddatblygiad cadarnhaol sy'n galluogi myfyrwyr i ennill cymwysterau craidd.
2. Mae angen cynyddu'r raddfa gyffredinol ar gyfer pasio o 30% (Gradd C neu uwch) er mwyn galluogi mwy o fyfyrwyr i ennill y cymwysterau hyn.
3. Dylid datblygu methodoleg benodol ar gyfer 'ail-sefyll' ar sail genedlaethol.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Bydd cynyddu'r nifer sy'n pasio TGAU Saesneg a Mathemateg yn gwneud myfyrwyr yn fwy cyflogadwy.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid gweithio mewn partneriaeth â cholegau a Llywodraeth Cymru, a mynd ati i ddatblygu 'enghreifftiau rhagorol' o ddeunyddiau addysgu a methodoleg ar gyfer TGAU Mathemateg a Saesneg ar sail genedlaethol.

Mynediad i Addysg Gyfrwng-Cymraeg

Cyflwynwyd gan: Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol UCM Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. Cred UCM Cymru y dylai addysg fod yn gynhwysol; hynny yw y gall myfyrwyr oll gael mynediad i addysg a chael llwyddiant, beth bynnag fo'u cefndir neu nodweddion. Felly, yng Nghymru, rhaid i addysg gynhwysol fod yn un un lle gall myfyrwyr sydd am astudio'r pwnc o'u dewis drwy gyfrwng y Gymraeg wneud hynny.
2. Yn 2015 cynhaliodd Ymgyrch yr Iaith Gymraeg arolwg oedd â'r amcan o ddarganfod a oedd myfyrwyr Addysg Uwch yn credu bod addysg Gymraeg yn bwysig, ac os felly pam. Dangosodd yr arolwg fod cyfran sylweddol o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn teimlo'n fwy hyderus wrth astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. O'r herwydd, gallai peidio â chael addysg Gymraeg amharu ar eu gallu i gyfranogi mewn Addysg Uwch a llwyddo ynddi.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) wedi bod yn allweddol mewn datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn sefydliadau Addysg Uwch.
2. Mae'r CCC wedi buddsoddi dros £18 miliwn ym Mhrifysgolion Cymru ers 2011 [1]
3. Mae'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn (traean o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg) mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi cynyddu 10% dros ddwy flynedd; dyma'r nifer uchaf erioed o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg. Yn ogystal â hyn, gwelwyd cynnydd o bron i 1,000 yn y nifer o fyfyrwyr israddedig llawn-amser sy'n astudio rhan o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhrifysgolion Cymru ers sefydlu'r Coleg yn 2011 (o 2,614 i 3,590 o fyfyrwyr). [2]
4. Mae gan y CCC hefyd rôl allweddol mewn cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid galw am ymestyn cylch gorchwyl y Coleg Cymraeg i gynnwys AB yn ogystal ag AU, a bod y CCC yn derbyn adnoddau a chefnogaeth ddigonol i wneud hynny.
2. Pe bai'r CCC yn cael awdurdod dros AU ac AB, rhaid i UCM Cymru ymgyrchu i sicrhau cydraddoldeb parch rhwng AU ac AB o fewn y mudiad. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y CCC yn galluogi myfyrwyr i lunio eu haddysg a darparu'r un hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr AB â'r hyn sydd ar gael i'r rheiny mewn AU.
3. Dylid parhau i ymgyrchu dros welliant yn y ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i fyfyrwyr yn y sector addysg ôl-orfodol.

---

[1] http://www.colegcymraeg.ac.uk/en/media/main/2015colegcymraeg/dogfennau/Annual-report-FINAL-2014-15.pdf
[2] http://www.colegcymraeg.ac.uk/en/media/main/2015colegcymraeg/dogfennau/Annual-report-FINAL-2014-15.pdf

Sicrhau'r fargen orau i brentisiaid!

Cyflwynwyd gan: Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol UCM Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. Cyfarfu tîm arweinyddiaeth Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid yn Chwefror 2017 i benderfynu ar ei bolisi a'i ymgyrchoedd ar gyfer y flwyddyn.
2. Dywedodd aelodaeth CGyP wrth y tîm arweinyddiaeth yr hyn y dylent ei flaenoriaethau, a throdd y tîm arweinyddiaeth y blaenoriaethau hyn yn bolisi.
3. Roedd y polisi a osodwyd yn rhannu i'r meysydd gwaith canlynol: Costau Byw; Cyflog Prentisiaid; Rhyngweithio cadarnhaol rhwng prentisiaid, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr; rhywiaeth a chamwahaniaethu.
4. Cred CGyP y dylai fod gan brentisiaid yr un hawl i fudd-daliadau â myfyrwyr, a byddant yn ymghyrchu ar eithriad rhag treth y cyngor; Cerdyn Teithio; Costau gofal iechyd; Gofal Plant; Costau Offer; Aelodaeth o Undebau Llafur; a Chyfrifon Banc.
5. Cred CGyP y dylid diddymu'r isafswm cyflog cenedlaethol ar gyfer prentisiaid, a bydd yn ymgyrchu i leihau'r amser a ganiateir ar yr isafswm cyflog prentisiaid tra'i fod yn dal i fodoli.
6. Bydd CGyP yn ail-ddatgan Siarter CGyP ar brentisiaethau rhagorol, a bydd yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu marc barcut ar gyfer prentisiaethau rhagorol.
7. Bydd CGyP yn sefydlu gweithgor Menywod mewn Prentisiaethau CGyP i ystyried menywod mewn prentisiaethau STEM a'r bwlch cyflog ar sail rhywedd.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Er nad oes angen i UCM fabwysiadu llwyfan CGyP yn strwythurol, mae tîm arweinyddiaeth CGyP am barhau â'i berthynas weithio gref ac UCM.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Bydd UCM yn parhau i roi cymorth i CGyP yn ei gwaith a'i hamcanion polisi.

Polisïau a basiwyd yn y Gynhadledd Cymru 2016

Cynnig i gefnogi'r ymgyrch dros sicrhau bod Prydain yn aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd

Cyflwynwyd gan: Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol UCM Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. Dylai'r DU barhau i fod yn aelod o'r UE i hyrwyddo hawliau dygol, heddwch a sefydlogrwydd, yn ogystal â'r rhyddid i symud o fewn yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ledled y byd.
2. Mae aelodaeth o'r UE yn rhoi rhyddid i fyfyrwyr astudio, byw a gweithio dramor heb y gost o gael fisa, gan amddiffyn eu hawliau o fewn y gwledydd maent yn teithio iddynt.
3. Mae buddsoddiad yr UE ym mhrifysgolion y DU yn sylweddol, ac mae'n gyfrifol am tua £1bn o fuddsoddiadau mewn addysg uwch a chyllido ymchwil yn unig.
4. Mae dros 200,000 o fyfyrwyr wedi astudio dramor drwy raglen Erasmus, sy'n cyfoethogi amrywioldeb addysgol a diwylliannol ein sefydliadau, a phrofiadau addysgol y myfyrwyr sy'n teithio.
5. Mae 15% o staff academaidd ym mhrifysgolion Cymru'n dod o wledydd eraill yr UE.
6. Mae dros dair miliwn o swyddi yn y DU yn gysylltiedig â masnach gyda gwledydd yr UE, ac mae myfyrwyr yr UE sydd yn y DU yn cynnal 19,000 o swyddi.
7. Mae myfyrwyr o wledydd eraill yr UE sy'n astudio yng Nghymru'n cyfrannu £18m mewn gwerth a ychwanegwyd at economi Cymru.
8. Mae'r UE yn darparu cyllido ar gyfer Twf Swyddi Cymru i roi cymhelliant i gyflogwyr roi swyddi i raddedigion di-waith er mwyn cynnig hyfforddiant pellach iddynt.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Byddai gadael yr UE yn cael effaith ar brifysgolion y DU, gan beryglu cyllido uniongyrchol, buddsoddiad, refeniw, ac amrywioldeb myfyrwyr a staff.
2. Mae staff o wledydd eraill y DU yn dod gwybodaeth a sgiliau arbenigol gyda nhw.
3. Mae cefnogaeth a chyfranogiad yr UE mewn prifysgolion yn eu gwneud yn gryfach drwy annog arloesi, ymchwil a datblygiad gwybodaeth, sef y ffactorau fydd, yn anorfod, yn penderfynu twf economiadd y DU yn y dyfodol.
4. Mae fframweithiau'r UE yn caniatáu cydweithredu academaidd ac yn lleihau rhwystrau i weithio ar draws ffiniau; mae Prifysgolion y DU yn nodi bod ymchwil a wneir gyda chydweithrediad rhyngwladol yn creu nron i 50% yn fwy o effaith nag ymchwil a wneir ar lefel genedlaethol.
5. Byddai gadael yr UE yn lleihau symudedd myfyrwyr tuag i mewn a thuag allan, gan gyfyngu ar gyfleoedd i fyfyrwyr o Gymru, ac amrywioldeb ein campysau.
6. Byddai gadael yr UE yn gwanhau safle'r DU ar y llwyfan byd-eang, ac felly gallu'r llywodraeth i gyd-drafod y deilliannau gorau i'w dinasyddion o ran y fasnach ryngwladol a diogelwch.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid hyrwyddo'r safiad y dylai'r DU barhau i fod yn aelod o'r UE
2. Dylid gweithio gydag ymgyrch Cymru'n Gryfach yn Ewrop a grwpiau eraill, er mwyn hysbysu myfyrwyr ynglŷn â manteision aelodaeth o'r UE.
3. Dylai UCM Cymru chwarae rhan weithredol mewn ymgyrchu dros gadw'r DU yn yr UE yn y cyfnod sy'n arwain at y refferendwm ar aelodaeth.

Rheolau Rhyngweithio

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Coleg Sir Gâr

Cred y Gynhadledd:

1. Yn ôl dadansoddiad Canolfan Lywodraethiant Prifysgol Caerdydd o arolygon barn a gafodd sylw gan y BBC, gallai UKIP ennill cymaint â naw sedd yn etholiad Cynulliad Cymru yn 2016.
2. Wedi i 'Gwelliant 101C - Gwrthwynebu UKIP' gael ei dderbyn yn 2014, pleidleisiodd UCM DU i wrthwynebu UKIP yn swyddogol "wrth ddynesu at yr Etholiad Cyffredinol."
3. Bydd angen i UCM Cymru weithio gyda llywodraeth nesaf Cymru a'r gwrthbleidiau er mwyn ymestyn amcanion mudiad y myfyrwyr.
4. Mae UCM Cymru ar ei orau pan mae modd iddo gyd-drafod yn adeiladol â gwleidyddion a'r sawl sy'n gwneud polisïau.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Cydraddoldeb yw un o brif werthoedd UCM – credwn y dylai pawb gael cyfle cyfartal i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas sy'n dathlu amrywioldeb.
2. Er mwyn cyflawni'n amcan hwn, dylai ymgyrchoedd rhyddhad fod wrth galon mudiad y myfyrwyr.
3. Mae llawer o aelodau enwocaf UKIP (y mae llawer ohonynt wedi rhoi'r gorau i'w rolau neu cawsant eu diswyddo wedi eu sylwadau) wedi mynegi barn ragfarnllyd a sarhaus at grwpiau lleiafrifol a grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Mae hynny'n groes i werthoedd ein mudiad ni.
4. Er gwaetha'r farn hon, gellid bod sefyllfaoedd lle gallwn weithio'n ymarferol ag UKIP er budd myfyrwyr yng Nghymru.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Pan fo'n bosibl, bydd UCM Cymru'n gweithio'n ymarferol ag UKIP ar faterion a fydd yn effeithio ar eu haelodaeth.
2. Ni fydd UCM Cymru'n rhoi llwyfan i UKIP heb eu herio e.e. cyfle i wneud araith heb wrthbrawf gan y pleidiau eraill.
3. Bydd UCM Cymru'n craffu'n sylweddol ar UKIP.
4. Bydd UCM Cymru'n sicrhau bod ei aelodaeth yn ymwybodol o'u safiadau blaenorol ar faterion rhyddhad e.e. priodas o'r un rhyw.
5. Gall PGC UCM Cymru adolygu'r cysylltiad hwn yn sgil unrhyw bolisïau neu safiad a wneir gan y blaid yn y dyfodol.

Pleidlais yn 16

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol De Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. Ar hyn o bryd, mae 1.5 miliwn a mwy o bobl rhwng 16 a 17 oed yn cael eu rhwystro rhag pleidleisio yn y DU.
2. Yn 16, daw pobl yn oedolion ac maent yn cymryd sawl cyfrifoldeb.
3. Pleidleisiodd llywodraeth y DU i roi'r bleidlais i bobl 16 oed gyda mandad clir yn Ionawr 2013.
4. Roedd Tŷ'r Arglwyddi'n pwyso i bobl yn eu harddegau gael barn yn Refferendwm yr UE, a chawsant addewid y bydd yn digwydd erbyn diwedd 2017, tan i bwysedd ariannol wyro eu barn.
5. Mae Llafur, SNP, y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru o blaid caniatáu i bobl 16 ac 17 bleidleisio ar aros yn yr UE neu beidio. Bu modd iddynt gymryd rhan yn y refferendwm ar annibyniaeth yr Alban.
6. Byddai methiant y llywodraeth i fabwysiadu'r polisi hwn yn annemocrataidd.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Ar adeg pan nad yw pobl yn meddwl bod gwleidyddiaeth yn berthnasol iddynt, mae angen ennyn diddordeb pobl ifanc yn nemocratiaeth, nid eu hallgau ohoni.
2. Gall pobl 16 oed adael yr ysgol, gweithio llawn amser, talu trethi, priodi ac ymrestru â'r fyddin, felly dylent fod yn gallu penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'u dyfodol.
3. Mae ennyn diddordeb pobl ifanc yn nemocratiaeth yn creu dinasyddion sydd â diddordeb mewn pleidleisio ac sy'n fwy tebygol o fagu'r arfer o bleidleisio.
4. Mae toriadau parhaus yn addysg yn effeithio'n negyddol ar yr ystod oedran hon.
5. Yn ôl arolwg gan ICM, pleidleisiodd 75% o bobl 16 a 17 oed yn ystod Refferendwm yr Alban.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Bydd UCM Cymru'n lansio ymgyrch i lobïo pleidiau gwleidyddol i gynnwys y Bleidlais yn 16 ar eu hagenda wrth ddynesu at Refferendwm yr UE.
2. Ennill cefnogaeth ASau ar yr ymgyrch a chynnig Bil Aelodau Preifat neu drafodaeth ar y mater.
3. Annog mudiad dylanwadol eraill i ymuno ag ymgyrch y Bleidlais yn 16.
4. Galw am newidiadau yn y ffordd y caiff gwleidyddiaeth a democratiaeth eu haddysgu yn y cwricwlwm Cymreig ac annog ysgolion i gael strwythurau llais myfyrwyr democrataidd da.
5. Datblygu deunydd ymgyrchu dwyieithog ynghyd â mudiadau arall i gefnogi ymgyrchoedd undebau myfyrwyr.
6. Gweithio gydag undebau addysg bellach i dynnu sylw at bwysigrwydd cofrestru i bleidleisio yn 16 a'u helpu i sbarduno'r ymgyrch.

Cynrychioli ein Haelodaeth

Cyflwynwyd gan: Pwyllgor Gweithdrefnau Democrataidd UCM Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. Mae ein mudiad wedi tyfu ac felly rhaid iddo newid ei anghenion etholiadol i ddarparu corff mwy cynrychioladol.
2. Mae AB yn fwy nag AU yng Nghymru a rhaid sicrhau nad myfyrwyr AU yn unig a gaiff eu hethol i'r rolau.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Er mwyn sicrhau gwell corff cynrychioliadol, rhaid i ni geisio darparu offer i sicrhau y gallwn fod mor gynrychioliadol â phosib ond peidio â rhwystro'r rheiny sy'n dymuno sefyll.
2. Caiff y PGD ei ethol yn flynyddol ac nid yw ei aelodau'n cael profiad o un gynhadledd i'r nesaf.
3. Gall cynadleddau/ymgyrchoedd ethol eu pwyllgor llywio bob 2 flynedd yn ogystal ag ethol un o'r 3 rôl bob blwyddyn, Felly ceir lle am aelod profiadol bob blwyddyn i gynorthwyo'r aelodau eraill.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid newid nifer yr enwebiadau ar gyfer rôl y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd i 10 enwebydd o 5 aelod cyfansoddiadol.
2. Ar gyfer rôl 2il Le Cymru ar CC UCM DU, dylai nifer angenrheidiol y sawl sy'n enwebu gynnwys un aelod cyfansoddiadol o AB fel rhan o'r 5 enwebydd o 3 aelod cyfansoddiadol.
3. Ar gyfer rolau ar Floc o 7 PGC UCM Cymru, dylid newid nifer y sawl sy'n cynnig i 5 o 3 aelod cyfansoddiadol.
4. Dylid newid nifer yr enwebiadau ar gyfer rolau ar y Pwyllgor Gweithdrefnau Democrataidd i 5 o 3 aelod cyfansoddiadol.
5. Dylid neilltuo un lle i fenyw ar y PGD
6. Dylid ethol y lle wedi'i neilltuo ac un lle agored ar y PGD bob 2 flynedd (etholir y rhain bob yn ail flwyddyn ac etholir y lle agored arall bob blwyddyn).
7. Rhaid i'r holl rolau uchod (Llywydd, Dirprwy Lywydd, 2il Le ar CC UCM DU, Bloc o 7 PGC UCM Cymru a PGD UCM Cymru) gael un enwebydd gan o leiaf un aelod cyfansoddiadol AB.

Nodiadau - Yn bresennol, mae angen ar y rolau canlynol:

- Llywydd a Dirprwy Lywydd – 10 enwebydd o 3 aelod cyfansoddiadol
- 2il Le Cymru ar CC UCM DU - 5 enwebydd o 3 aelod cyfansoddiadol
- Bloc o 7 ar y PGC – 3 enwebydd o 2 aelod cyfansoddiadol
- Pwyllgor Gweithdrefnau Democrataidd Cymru – 3 enwebydd o 2 aelod cyfansoddiadol
- SYLWCH - Mae'n bosib y gall ymgeiswyr gael eu henwebu ac ennill heb gefnogaeth o AB, sef sector mwyaf ein haelodaeth.

Gordal y GIG

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor

Cred y Gynhadledd

1. Y tyb yw bod mewnfudwyr yn defnyddio'r GIG heb gyfrannu at y gymdeithas. Nid yw hynny'n wir
2. Mae myfyrwyr rhyngwladol yn cyfrannu i Gymru ac i'r DU yn ddiwylliannol ac yn ariannol.
3. Yn ôl deddfwriaeth fisas, ni all myfyrwyr rhyngwladol droi at gronfeydd cyhoeddus, sy'n golygu mai'r GIG yw'r unig wasanaeth lles sydd ar gael iddynt.
4. Mae myfyrwyr rhyngwladol yn talu 2 i 4 gwaith ffioedd dysgu myfyrwyr cartref a myfyrwyr o'r UE.
5. Mae myfyrwyr rhyngwladol yn wynebu amryw o rwystrau i addysg yng Nghymru gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, sioc diwylliant, iaith a chostau
6. Mae myfyrwyr rhyngwladol yn talu ffioedd ychwanegol i gael mynediad i addysg yng Nghymru sy'n cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, gyrsiau a phrofion Saesneg, cyrsiau sylfaenol, trafnidiaeth, cludo a fisas
7. Yn 2009, cofrestrodd 12,000 o fyfyrwyr rhyngwladol ar gyrsiau prifysgol yng Nghymru ac arweiniodd hyn at gyfraniad o £150m i economi Cymru
8. Mae Prydain yn ail dim ond i UDA am fod yn gyrchfan addysg poblogaidd
9. Mae fisa haen 4 yn ofynnol i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n dod i Gymru o'r tu hwnt i'r AEE/UE
10. Ar 6 Ebrill 2015, cyflwynodd San Steffan ordal iechyd ar geisiadau am fisa, gydag ambell i eithriad
11. Codir tâl o £150 y flwyddyn ar fisas haen 4
12. Gellir talu'r gordal wrth wneud cais am fisa
13. Er mai pŵer San Steffan yw mewnfudo, mae addysg ac iechyd yn bwerau datganoledig.

Cred y Gynhadledd ymhellach

1. Mae gofal iechyd yn hawl a ddylai fod yn hygyrch
2. Mae addysg yn hawl a ddylai fod yn hygyrch
3. Dylid cynrychioli pryderon myfyrwyr rhyngwladol, beth bynnag fo'u statws pleidleisio, yng Nghynulliad Cymru
4. Ni ddylai myfyrwyr rhyngwladol biau'r baich o gefnogi'r GIG
5. Ni ddylid rhoi'r bai ar fewnfudwyr, gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol, na chwaith ddylai llywodraeth Cymru a'r DU eu trinio fel peiriant pres.
6. Bydd cyfyngiadau a rhwystrau a roddir ar fyfyrwyr rhyngwladol yn arwain at leihad yn nifer y bobl sy'n cofrestru ar gyrsiau. Bydd hynny'n niweidiol i Gymru

Penderfyna'r Gynhadledd

1. Ymgyrch gan sefydliadau AB ac AU i gymorthdalu gordal y GIG ar gyfer materion fisas a roddir ar god CAS oddi wrth sefydliadau Cymru
2. Ymgyrch gan Gynulliad Cymru i gymorthdalu gordal y GIG ar gyfer materion fisas a roddir ar god CAS oddi wrth sefydliadau Cymru
3. Gwrthwynebu codi taliadau pellach ar fyfyrwyr rhyngwladol
4. Mandadu cynrychiolydd myfyrwyr rhyngwladol UCM i greu ymgyrch sy'n seiliedig ar farn a phrofiadau myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru ar y GIG a'r gordal fisas

Cyfansoddiad UCMC

Cyflwynwyd gan: Pwyllgor Gweithdrefnau Democrataidd UCM Cymru

Cred y Gynhadledd

1. Dylai'r rheolau ddangos pwy ydym yn ogystal â sut rydym yn gweithio
2. Dylai'r rheolau helpu a sicrhau cyfreithlondeb ym mhopeth gall UCMC ei wneud
3. Mae testun yn y rheolau yn cryfhau ein gallu i ymarfer yr hyn rydym yn ei bregethu ac mae gennym yr offer er mwyn gwneud hynny.

Cred y Gynhadledd ymhellach

1. Mae cynaladwyedd yn rhywbeth sydd wrth galon UCMC. Dylid cynnwys cynaladwyedd a gwaith tuag at gyflawni hwnnw yn y rheolau.
2. Mae hygyrchedd i bawb yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod gan bob myfyriwr fynediad a bod eu llais yn cael ei glywed gan y corff cenedlaethol hwn.
3. Gellir ystyried y materion uchod yn rhai gwleidyddol ac mae angen iddynt gael eu cadarnhau gan yr aelodaeth cyn bod modd i'r PGD eu hychwanegu at y rheolau.
4. Mae ein mudiad wedi tyfu ac mae angen iddo adlewyrchu'r twf hwn drwy adolygu'r adran etholiadau ph'un ai bod yn gwir adlewyrchu'r aelodaeth neu beidio.

Penderfyna'r Gynhadledd

1. Derbyn y newidiadau a wnaed yn Rheolau Cymru 2013/14 ac ailenwi'r ddogfen yn “Rheolau Cymru 2015/16”
2. Mandadu'r PGD i weithio gyda'r PGC i ychwanegu adran gynaladwyedd sy'n datgan ymrwymiad y mudiad yn ogystal â'i fwriad o ddarparu offer yn y ddogfen Rheolau. Caiff hyn ei argymell i gynhadledd genedlaethol nesaf Cymru
3. Mandadu'r PGD i weithio gyda'r PGC i ychwanegu adran hygyrchedd sy'n datgan ymrwymiad y mudiad yn ogystal â'i fwriad o ddarparu offer o fewn y ddogfen Rheolau. Caiff hyn ei argymell i gynhadledd genedlaethol nesaf Cymru.
4. Mandadu'r Pwyllgor Gweithdrefnau Democrataidd i adolygu adran Rheolau Etholiadol UCMC yn y rheolau. Bydd unrhyw newidiadau yn golygu y bydd y PGD yn argymell hynny yng nghynhadledd genedlaethol nesaf Cymru.

Jargon - AC = Aelod Cyfansoddiadol

Mae'r cyfansoddiad arfaethedig wedi'i gynnwys fel atodlen

System addysg deg, wedi'i chyllido'n gyfiawn

Cyflwynwyd gan: PGC UCM Cymru

Cred y Gynhadledd

1. Mae UCM Cymru wedi dadlau ers blynydoedd dros gael sector addysg ôl-16 yng Nghymru, sydd wedi'i chyllido'n gyfiawn ar draws pob ffurf o dysgu, gan sicrhau astudiaeth hygyrch i bawb.
2. Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i dreblu ffioedd dysgu i £9,000 y 2010, cyflwynodd Llywodraeth Cymru bolisi grant ar gyfer ffioedd dysgu er mwy sicrhau na fyddai myfyrwyr o Gymru'n talu mwy na £3,800 ble bynnag y byddent yn astudio yn y DU.
3. Mae'r system hon yn buddsoddi'n uniongyrchol mewn myfyrwyr, gan sicrhau eu bod yn gwneud dewisiadau sy'n seiliedig ar y cwrs sy'n iawn iddynt, nid ar sail y gost.
4. Mae'r buddsoddiad uniongyrchol hwn mewn myfyrwyr yn egwyddor bwysig y dylid ei gynnal, ond ei ymestyn i bob ffurf o addysg.
5. Mae Llywodraeth Cymru wedi gostgwng ei buddsoddiad yn y gyllideb addysg ôl-16 yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda dysgu oedolion, addysg ran amser ac addysg bellach yn cael eu bwrw galetaf.
6. Oherwydd hyn, mae blaenoriaethau cyllido wedi targedu myfyrwyr israddedig llawn amser yn anghymesur drwy'r system gymorth ar gyfer ffioedd dysgu. Arweiniodd hyn at anghydbwysedd mewn cyllido o gymharu â ffurfiau eraill o ddysgu; gan osod sectorau yn erbyn ei gilydd, cynyddu rhaniadau mympwyol rhwng addysg bellach ac uwch, a chyfyngu ar gyfloedd ar gyfer dysgu gydol oes.
7. Caiff UCM Cymru ei gynrychioli ar yr adolygiad i gyllido addysg uwch a chynhaliaeth ariannol i fyfyrwyr drwy'r Llywydd; mae disgwyl i'r argymhellion terfynol gael eu cyhoeddi ym Medi 2016
8. Drwy'r adolygiad, gallai cyllido o fewn y sector ôl-16 ei ail-gyfeirio i feysydd blaenoriaeth eraill, hyd yn oed y tu allan i'r gyllideb addysg; rhaid i'r arian hwn aros yn y sector ôl-16, wedi'i fuddsoddi'n eglur ac yn uniongyrchol mewn myfyrwyr.
9. Mae UCM Cymru wedi ymuno â'r Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) a Unison i lansio Peidiwch â'n Torri ni Allan - ymgyrch dros gynnydd yn y buddsoddiad mewn addysg ôl-16 a mynediad i addysg i bawb.
10. Mae'r adolygiad addysg uwch yn cyflwyno ei adroddiad ar ôl etholiadau Cynulliad Cenedlaethol 2016, sydd mewn peryg o rwystro trafodaethau gwleidyddol ynghylch dyfodol cyllido addysg yn y cyfnod sy'n arwain at etholiadau'r Cynulliad, ac nid oes unrhyw sicrwydd y caiff yr argymhellion eu gweithredu.
11. Lle bo cyllido ar gyfer addysg yn gyfyngedig, dylai ymgyrchu ganolbwyntio ar ddadlau dros fuddsoddiad cynyddol, dileu cystadleuaeth ac anghyfiawnder mewn cyllido rhwng gwahanol fathau o dysgu.

Penderfyna'r Gynhadledd

1. Dylai UCM Cymru lobïo dros fwy o fuddsoddiad mewn addysg Ôl-16 a chyllido cyfiawn ar draws pob sector.
2. Dylai UCM Cymru weithio o fewn yr adolygiad a lobïo Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr adolygiad yn rhoi sylw manwl i bob ffurf o ddysgu ac yn gwneud argymhellion priodol.
3. Dylai UCM Cymru lobïo'r llywodraeth newydd-etholedig i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y fargen orau allan o argymhellion yr adolygiad.

Wythnos Myfyrwyr yn Gwirfoddoli

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

Cred y Gynhadledd

1. 2016 fydd 15fed blynedd Wythnos Myfyrwyr yn Gwirfoddoli (WMG) yn y DU.
2. Mae Rhwydwaith Gwirfoddoli Myfyrwyr yn rhwydwaith cymorth sy'n caniatáu i unrhyw un a gaiff eu cyflogi gan sefydliad addysg uwch neu addysg bellach gynorthwyo gweithgaredd gwirfoddoli myfyrwyr.

Cred y Gynhadledd ymhellach

1. Credwn y dylai pob myfyriwr gael mynediad i gyfleoedd i wirfoddoli a gweithredu'n gymdeithasol wrth astudio yn y coleg neu'r brifysgol.
2. Mae WMG yn gyfle gwerthfawr i fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli, yn ogystal â cholegau, prifysgolion, elusennau, mentrau cymdeithasol, busnesau a'r llywodraeth.
3. Mae WMG yn darparu cyfle i gydweithio, trafod heriau ac arddangos syniadau arloesol yn ogystal â rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr wirfoddoli.
4. Mae WMG yn rhoi cyfle i fyfyrwyr gael eu cydnabod am eu cyrhaeddiad wrth wirfoddoli ledled y wlad.

Penderfyna'r Gynhadledd

1. Dylai UCM Cymru hyrwyddo Wythnos Myfyrwyr yn Gwirfoddoli a chynorthwyo undebau myfyrwyr i ddarparu cyfleoedd i'w myfyrwyr ac yn eu cymunedau.
2. Dylai UCM Cymru gynorthwyo undebau myfyrwyr i greu cyfleoedd i bobl ifanc leisio'u barn ac i weithredu'n gymdeithasol yn eu cymunedau.
3. Dylai UCM Cymru gynnal dathliad ffurfiol o'r gwaith mae undebau myfyrwyr yn ei wneud yn eu cymunedau a'r gymdeithas ehangach.

UCM Digidol yn cydnabod yr angen am ddwyieithrwydd

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol De Cymru

Cred y Gynhadledd

1. Dengys yr Arolwg Defnydd Iaith 2013/14 fod 310,600 o bobl sy'n dair blwydd oed neu'n hŷn ac yn byw yng Nghymru'n siarad Cymraeg yn rhugl.
2. Mae gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ganghennau gweithredol mewn saith prifysgol yng Nghymru.
3. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn cynyddu nifer y prosiectau a gynhelir mewn sefydliadau AB yng Nghymru.

Cred y Gynhadledd ymhellach

1. Dylai UCM Digidol gydnabod bod Cymru'n wlad a chanddi ddwy iaith.
2. Dylai UCM Digidol sicrhau bod modd i fyfyrwyr Cymreig gael mynediad i wybodaeth ddigidol yn iaith eu dewis.
3. Gyda phenodiad Comisiynydd y Gymraeg, rhoddir mwy a mwy o bwyslais a gorfodaeth ar y ddarpariaeth Gymraeg mewn undebau.

Penderfyna'r Gynhadledd

1. Bydd UCM Cymru'n lobïo UCM Digidol i ddarparu llwyfan i ddwyieithrwydd.
2. Ni fydd y llwyfan dwyieithog yn codi unrhyw gost ar undebau Cymru.

Mynediad cyfartal i geiswyr lloches

Cyflwynwyd gan: PGC UCM Cymru

Cred y Gynhadledd

1. Mae Erthygl 26 o'r Datganiad Byd-eang ar Hawliau Dynol yn nodi: "Mae gan bawb yr hawl i addysg... a bydd addysg uwch yn hygyrch i bawb yn gyfartal ar sail haeddiant".
2. Ceisiwr lloches yw person sydd wedi cyflwyno cais am amddiffyniad ar sail Cytundeb Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig 1951.
3. Mae prifysgolion yn codi ffioedd dysgu uwch ar geiswyr lloches, yn unol â'r hyn maent yn ei godi ar fyfyrwyr rhyngwladol - yn aml dros £13,000.
4. Nid yw ceiswyr lloches yn gymwys i dderbyn benthyciadau i fyfyrwyr, na grantiau, ac nid oes ganddynt yr hawl i weithio yn y DU - maent yn aml yn byw ar ddim ond £36.95 yr wythnos, sy'n golygu y byddai talu £13,000 am eu haddysg yn anodd iawn, os nad yn amhosib, gyda'r ffynonellau incwm arferol.
5. Yn yr Alban, ni chodir ffioedd ar geiswyr lloches ifanc, na phlant ceiswyr lloches.
6. Mae gan brifysgolion yr hawl i osod ffioedd fel y gwelant yn dda, ac felly mae ganddynt rym i godi'r un ffioedd ag y gwnânt ar fyfyrwyr cartref neu i hepgor ffioedd yn gyfangwbl.
7. Mae 26 o brifysgolion yn y DU wedi newid eu polisïau er mwyn caniatáu i geiswyr lloches dalu ffioedd dysgu 'cartref', neu i hepgor ffioedd yn gyfangwbl, gan gynnwys Prifysgol Caerdydd

Cred y Gynhadledd ymhellach

1. Ni ddaeth ceiswyr lloches i'r DU o ddewis - maent yn dianc rhag erledigaeth.
2. Daeth llawer o geiswyr lloches i'r DU yn blant, gan dyfu i fyny yn y system addysg Brydeinig - bu gorfodaeth gyfreithiol arnynt i fynychu'r ysgol nes eu bod yn 18 oed.
3. Bob blwyddyn, mae'r rheiny sydd wedi ennill y cymwysterau angenrheidiol i fynd i'r brifysgol yn canfod bod y system, a oedd yn eu "gorfodi'n gyfreithiol i fynychu'r ysgol", nawr yn eu hystyried i fod yn "fyfyrwyr rhyngwladol" gyda rhwystrau ariannol mewn lle i'w hatal rhag parhau â'u hastudiaethau.
4. Yn aml, rhaid i geiswyr lloches aros am flynyddoedd cyn gwneir penderfyniad ar eu cais am loches. Gan nad oes modd iddynt weithio, mae mynd i'r brifysgol yn rhoi cyfle iddynt i ennill sgiliau sy'n mynd i'w helpu i adeiladu eu bywyd yn y DU, neu pan fyddant yn dychwelyd i'w gwlad wreddiol.
5. Mae UCM Cymru weid dechrau gweithio gyda STAR a grwpiau eraill ar ymgyrch fynediad cyfartal Cymru-gyfan.

Penderfyna'r Gynhadledd

1. Dylid cynnig cefnogaeth i Undebau i lobïo prifysgolion Cymru i ymuno â'r Siarter Mynediad Cyfartal, sy'n galw ar:
    a. Bob sefydliad i hepgor ffioedd a chynnig ysgoloriaethau a bwrsariaethau llawn i nifer o geiswyr lloches.
    b. Dylai prifysgolion newid statws ceiswyr lloches i fod yr un fath â 'myfyrwyr cartref', gan eu gwneud yn gymwys i dderbyn benthyciad i fyfyrwyr.
    c. Dylai sefydliadau gyhoeddi eu statws mynediad cyfartal, er mwyn annog myfyrwyr i wneud cais.

Cydnabod Addysg Nad yw'n Ffurfiol

Cyflwynwyd gan: PGC UCM Cymru

Cred y Gynhadledd

1. Comisiynwyd yr Athro Graham Donaldson gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad i ystyried trefniannau cwricwlwm ac asesu newydd. Mae ei adroddiad yn hyrwyddo chwe "maes dysgu a phrofiad" fel sail i gwricwlwm newydd Cymru, a fyddai'n arwain at ragoriaeth addysg o 3 oed hyd 16.
2. Mae Adolygiad Donaldson yn ymgorffori pob dysgwr o 3 oed hyd 16, o'r Cyfnod Sylfaenol hyd Gyfnod Allweddol 4 (TGAU)
3. Bwriad yr argymhellion yw datblygu dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywyd, cyfranwyr creadigol a mentrus sy'n barod i chwarae rhan mewn bywyd a gwaith, dinasyddion moesegol o Gymru ac o ledled y byd, ac unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas
4. Bydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys chwe "maes dysgu a phrofiad": celfyddydau mynegiannol, iechyd a lles, y dyniaethau, ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, mathemateg a rhifedd, a gwyddoniaeth a thechnoleg
5. Mae gan UCM Cymru le ar Grŵp Llywio Donaldson.

Cred y Gynhadledd ymhellach

1. Mae myfyrwyr yn dysgu y tu hwnt i'w hamgylchedd addysgol ffurfiol.
2. Anogir myfyrwyr i gymryd rhan mewn clybiau a chymdeithasau wrth i ni gydnabod bod yna ffyrdd eraill o ddysgu a datblygu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.
3. Mae llawer o bobl yn dewis ymgymryd ag addysg bersonol ac addysg ddatblygu cymdeithasol drwy eu cyfranogiad mewn darpariaeth ieuenctid wirfoddol.
4. Dylai'r meysydd dysgu sy'n digwydd mewn gweithgareddau allgyrsiol gydfynd ag amcanion argymhellion Donaldson.

Penderfyna'r Gynhadledd

1. Dylai UCM Cymru hyrwyddo cydnabyddiaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus, dysgu na achredir a chyrsiau galwedigaethol yn adolygiad Donaldson.
2. Dylai UCM Cymru gychwyn trafodaeth ynghylch addysg nad yw'n ffurfiol yn y cwricwlwm gan ddefnyddio canfyddiadau'r adroddiad Rhwystrau i Gyfleoedd i Fyfyrwyr.
3. Dylai UCM Cymru gynnal ymchwil i sut all dysgu ar sail problemau alluogi pobl ifanc i fynd i'r afael â materion cymdeithasol a dod yn ddinasyddion gweithredol yn eu cymuned wrth symud ymlaen â'u haddysg.

Y trobwynt

Cyflwynwyd gan: Coleg Cambria

Cred y Gynhadledd

1. Mae ffigyrau'n dangos bod yno ar hyn o bryd 54,385 o brentisiaethau yng Nghymru.
2. Mae gan UCM Cymru gyfrifoldeb i gynrychioli pob dysgwr dros 16 oed.
3. Mae Cymdeithas Genedlaethol Prentisiaid Cymru yn bodoli i gynrychioli prentisiaid ar draws Cymru a chaiff gefnogaeth gan UCM Cymru.
4. Caiff aelod o dîm arweinyddiaeth GGP Cymru ei gyfethol i Bwyllgor Gwaith Cenedlaethol Cymru yn flynyddol er mwyn sicrhau bod llais prentisiaid yn cael ei gynrychioli ym mhrosesau llunio penderfyniadau UCM Cymru.

Cred y Gynhadledd ymhellach

1. Bod prentisiaid yn fyfyrwyr.
2. Bod prentisiaid yn arbenigwyr yn eu maes nhw o addysg a gwaith.
3. Nod CGP Cymru yw ymgyrch ar faterion sy'n effeithio ar brentisiaid.

Penderfyna'r Gynhadledd

1. Rhoi i Gymdeithas Genedlaethol Prentisiaid Cymru'r un pwerau ag aelod cyfansoddiadol, fel a ganlyn:
    a. Bod yn gallu anfon dirprwyaethau llawn i gynhadledd UCM Cymru
    b. Bod â hawliau pleidleisio llawn ar draws holl brosesau UCM Cymru
    c. Bod â hawliau siarad llawn yn holl gynadleddau UCM Cymru
    d. Bod â'r gallu i gyflwyno cynigion
    e. Bod â'r gallu i ymgeisio yn etholiadau UCM Cymru

Draig Swper Ffynci

Cyflwynwyd gan: PGC UCM Cymru

Cred y Gynhadledd

1. Llynedd, pasiwyd polisi i fandadu UCM Cymru i lobïo'r Cynulliad i ailsefydlu cynulliad ieuenctid cenedlaethol
2. Cymru yw'r unig wlad yn Ewrop sydd heb lais ieuenctid cenedlaethol swyddogol
3. Mae toriadau yng ngwasanaethau ieuenctid lleol wedi arwain at gyfleoedd prin i bobl ifanc
4. Datblygwyd papur ar gyfer y Gweinidog Addysg sy'n rhoi braslun o fodel wedi'i gyllido i undebau myfyrwyr a gall UCM Cymru ychwanegu gwerth ymarferol ac ystyrlon i'r sector ieuenctid.

Cred y Gynhadledd ymhellach

1. Mae UCM Cymru bellach yn aelod o Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
2. Mae UCM Cymru wedi gwneud addewid "Step up to Serve": "Bydd UCM Cymru'n adeiladu partneriaethau a chynghreiriau i greu cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc yng Nghymru, a'u darparu â llwyfan i helpu mynegi llais dysgwyr mewn addysg dan 16 oed."
3. Mae UCM Cymru yn deall ac yn cydnabod pwysigrwydd ymrymuso ac ennyn diddordeb pobl ifanc yn nemocratiaeth a materion sy'n effeithio arnynt mewn cymdeithas.
4. Mae UCM Cymru'n datblygu model a all gynorthwyo a gwella'r ymgysylltu â phobl ifanc, gweithredu cymdeithasol a chyfleoedd ar gyfer llais cenedlaethol drwy undebau myfyrwyr.

Penderfyna'r Gynhadledd

1. Dylai UCM Cymru barhau â'i waith mewn cydweithrediad â Chymru Ifanc, Llais Ifanc, Cyngor Ieuenctid Prydain, tîm allgymorth y Cynulliad a Swyddfa Comisiynydd y Plant i greu Cynulliad/Cyngor Ieuenctid Cenedlaethol.
2. Dylai UCM Cymru gynorthwyo undebau myfyrwyr i gydlynu cyfleoedd ar gyfer cynghorau ieuenctid lleol a mudiadau ieuenctid yn eu cymunedau.
3. Dylai UCM Cymru gynorthwyo undebau myfyrwyr i greu cyfleoedd i bobl ifanc leisio'u barn ac i weithredu'n gymdeithasol yn eu cymunedau.
4. Dylai UCM Cymru weithio mewn partneriaeth â NUS Extra i greu model cyllido cynaliadwy i gynorthwyo'r prosiect hwn.

CGyP yn cymryd drosodd

Cyflwynwyd gan: Coleg Cambria

Cred y Gynhadledd

1. Cynhelir Etholiad y Cynulliad ar 5ed Mai 2016.

Cred y Gynhadledd ymhellach

1. Mae Cymdeithas Genedlaethol Prentisiaid Cymru wedi ysgrifennu maniffesto sy'n amlinellu eu gofynion polisi.
2. Mae'r chwech o ofynion polisi fel a ganlyn: cydraddoldeb rhywedd, llwybrau i addysg uwch, cyflwyno cerdyn teithio, mynediad i'r Gymraeg, caffaeliad cyhoeddus, cydraddoldeb parch.
3. Mae CGPC wedi bod yn lobïo cyn etholiadau'r cynulliad ar y chwe maes polisi a nodwyd gan brentisiaid.

Penderfyna'r Gynhadledd

1. Rydym yn galw ar UCM Cymru i roi sylw i faniffesto CGPC.
2. Dylai UCM Cymru gydnabod y 6 maes polisi mae CGPC wedi'u hamlinellu a lobïo'n briodol.
3. Dylai UCM Cymru fabwysiadu'r pwyntiau'r maniffesto fel polisi.

Cael Pethau wedi'u Gwneud

Cyflwynwyd gan: Coleg Cambria

Cred y Gynhadledd

1. Mae gan UCM Cymru gyfrifoldeb i gynrychioli pob dysgwr dros 16 oed.
2. Mae Cymdeithas Genedlaethol Prentisiaid Cymru yn bodoli i gynrychioli prentisiaid ar draws Cymru a chaiff gefnogaeth gan UCM Cymru.
3. Mae UCM Cymru'n gweithio gyda Chymdeithas Genedlaethol Prentisiaid Cymru i'w cefnogi yn eu gwaith.
4. Caiff aelod o dîm arweinyddiaeth CGPC ei gynrychioli'n ffurfiol o fewn strwythurau llunio penderfyniadau UCM Cymru.

Cred y Gynhadledd ymhellach

1. Mae gan UCM Cymru ddyletswydd i ymgynghori â CGPC ac i bob amser ystyried barn prentisiaid yn eu gwaith.

Penderfyna'r Gynhadledd

1. Mandadu tîm Swyddogion Llawn Amser UCM Cymru i ddarparu cefnogaeth barhaus i Gymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid.
2. Mandadu tîm Swyddogion Llawn Amser UCM Cymru i ddatblygu cynllun gwaith gyda thîm arweinyddiaeth CGPC.
3. Dylai UCM Cymru sicrhau bod CGPC yn derbyn adnoddau digonol i'w galluogi i ymgymryd â'u gwaith.

Achubwch Gymru rhag Toriadau i Fwrsariaethau Myfyrwyr

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

Noda PGC Cymru:

1. Cyhoeddodd George Osborne, Canghellor y Trysorlys, ei adolygiad o wariant fis Tachwedd yn ogystal â datganiad yr hydref. Cyhoeddodd y datganiad y caiff bwrsariaethau myfyrwyr nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd eu troi'n fenthyciadau yn Lloegr. Gall y newidiadau hyn effeithio hefyd ar gyrsiau parameddygaeth.
2. Nid yw'r newidiadau arfaethedig ond yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio yn Lloegr, ond gall y newid hwn sbarduno trafodaethau yng nghyrff datganoledig. Fel hyn y bu sawl penderfyniad arall gan lywodraeth y DU ac felly daw cryn bryder i fyfyrwyr gofal iechyd sy'n astudio yng Nghymru.
3. Pan mae 50% o'u cwrs wedi'i neilltuo ar gyfer ymarfer clinigol di-dâl ac mae'r flwyddyn academaidd yn hwy, mae gan y myfyrwyr hyn lai o gyfleoedd eisoes i weithio rhan amser i ddod o hyd i gyllid ychwanegol.
4. Mae myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth yn fwy tebygol o fod yn hŷn, yn bobl dosbarth gweithio ac yn fenywod. Mae gan lawer ohonynt fenthyciadau i fyfyrwyr ar ôl gwneud gradd ac felly byddant yn mynd i hyd yn oed fwy o ddyled.
5. Mae Coleg Brenhinol y Bydwragedd wedi rhybuddio y gellir cronni hyd at £65,000 o ddyled a'r tebyg yw y gellir atal llawer o bobl rhag y proffesiwn. Mae hyn yn debygol o arwain at nifer uwch o fyfyrwyr yn gadael cyrsiau proffesiynau perthynol i iechyd.

Creda PGC Cymru:

1. Mae myfyrwyr y GIG yn fyfyrwyr yn ogystal â gweithwyr a dylid eu talu'n deg am y gwaith a wnaed ganddynt; nid eu gyrru at ddyled.

Penderfyna PGC Cymru:

1. Condemnio'r weithred hon am ei bod yn dangos diystyrwch at gyfraniad gweithwyr y GIG ac at fynediad i'r proffesiwn.
2. Dylai UCM Cymru lobïo gweinidogion i sicrhau na chaiff y newidiadau hyn eu cynnig yng Nghymru
3. Cefnogi llythyr agored Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd at Lywodraeth Cymru sy'n datgan safiad yn erbyn cynigion tebyg yng Nghymru.
4. Gweithio gyda holl undebau myfyrwyr Cymru, y Coleg Nyrsio Brenhinol, Coleg Brenhinol y Bydwragedd, Cymdeithas Feddygol Prydain, Unison a rhanddeiliaid eraill i frwydro yn erbyn cynigion tebyg yng Nghymru.
5. Rhannu galw'r Coleg Nyrsio Brenhinol am dystiolaeth yn ogystal â chysylltiadau Coleg Brenhinol y Bydwragedd i lobïo ASau ac ACau gydag undebau perthnasol sy'n aelod.
6. Cynorthwyo ymgyrchoedd UCM ac undebau myfyrwyr yn erbyn y newidiadau arfaethedig yn Lloegr.

Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ailsefydlu cyllid S4C

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

Noda PGC UCM Cymru

1. Cyhoeddodd Datganiad yr Hydref gan George Osborne doriadau pellach i gyllid gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o'r lefel bresennol, sef £6.7m, i £5m erbyn 2019-20.
2. Meddai Huw Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C: "Mae'r penderfyniad i leihau'r cyllid mae S4C yn ei dderbyn oddi wrth lywodraeth ganolog yn un siomedig, yn enwedig gan fod y lleihad yn sylweddol fwy na chyfanswm y lleihad y mae'r adran wedi ei gael.
3. Ar hyn o bryd, mae S4C yn cael tua 90% o'i chyllid trwy ffi'r drwydded ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi awgrymu y dylai S4C weithredu arbedion mewn cyfrannedd â'r rheiny y mae disgwyl i'r BBC eu gweithredu.
4. Meddai Huw Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C: "Mae'n anochel y bydd gan doriadau o'r fath hon oblygiadau i ystod ac amrywiaeth y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ac i'n gallu i fanteisio ar gyfleoedd newydd."
5. Dwedodd Jamie Bevan, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, bod y Ceidwadwyr wedi torri addewid eu maniffesto i "warchod annibyniaeth gyllidol a golygyddol S4C"
6. Yn 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth doriad o 94% i'w grant i S4C dros bedair blynedd. Bydd hwn yn gostwng o £101 miliwn yn 2010-11 i £7 miliwn yn 2014/15.
7. Mae'r toriadau uchod yn berthnasol i'r grantiau uniongyrchol a roddir gan Lywodraeth y DU ac nid incwm ffi'r drwydded nag incwm masnachol y BBC.
8. Trafodir perthynas ariannol y BBC ac S4C yn ystod adnewyddu Siartr y BBC y flwyddyn nesaf.
9. Mae rhai myfyrwyr prifysgol yn gweithio rhan amser ar hyn o bryd gydag S4C a chwmnïau dan gontract.
10. Dyma'r datganiad ym maniffesto'r Ceidwadwyr;
    "Buasem yn gwarchod ac yn hyrwyddo'r Gymraeg – mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mewn gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg. Buasem yn gwarchod annibyniaeth gyllidol a golygyddol S4C. Buasem yn hyrwyddo'r Eisteddfod Genedlaethol ledled y byd."

Creda PGC UCM Cymru

1. Nid yw torri ymrwymiadau maniffesto yn dderbyniol
2. Mae S4C yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn ogystal â phobl ddi-Gymraeg yma yng Nghymru, yn y DU a ledled y byd.
3. Mae 562,000 o holl boblogaeth Cymru'n gallu siarad Cymraeg.
4. Ceir nifer helaeth o bobl sy'n siarad Cymraeg ond nad ydynt yn rhugl
5. Rhaid gwneud mwy i atal toriadau i gyllideb S4C
6. Gallai toriadau pellach gael niwed ar ysgoloriaethau, hyfforddiant, interniaethau a phrofiad gwaith a roddir i fyfyrwyr
7. Gallai toriadau pellach gael niwed ar gyfleoedd cyflogaeth i'r rheiny sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn niwydiant y cyfryngau yng Nghymru. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datgan y "dylai'r rheiny sy'n dymuno byw eu bywyd drwy gyfrwng y Gymraeg gael gwneud hynny."
8. Mae prifysgolion Cymru'n rhoi gwerth ar newyddiaduriaeth, y cyfryngau a diwylliant, eu Hysgol y Gymraeg eu hunain a'r berthynas bwysig sydd ganddynt gydag S4C a chyfryngau eraill.

Penderfyna PGC UCM Cymru:

1. Dylai UCM Cymru anfon llythyr at Lywodraeth Cymru i alw ar Lywodraeth y DU i ailsefydlu eu hymrwymiad ariannol llawn i S4C.
2. Dylai UCM Cymru anfon llythyr at Lywodraeth y DU i alw arnynt i ailsefydlu eu hymrwymiad ariannol llawn i S4C.
3. Dylai UCM Cymru fenthyca ei gymorth i ymgyrchoedd er mwyn sicrhau dyfodol S4C

Polisïau a basiwyd yng Nghynhadledd Cymru 2015

Rhoi'r Ffync yn ôl i'r Ddraig

Cyflwynwyd gan: PGC UCM Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. Roedd y Ddraig Ffynci'n fudiad oedd â'r bwriad o alluogi plant a phobl ifanc yng Nghymru i gael eu lleisiau wedi eu clywed gan y Llywodraeth ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisïau sy'n effeithio ar eu bywydau.
2. Daeth y Ddraig Ffynci i ben ar 01.10.2014, sy'n golygu mai Cymru bellach yw'r unig wlad yn Ewrop sydd heb Gynulliad Ieuenctid Cenedlaethol.
3. Dywedwyd fod y Ddraig Ffynci i gael ei disodli gan strwythur nad ydym hyd yma'n gwybod amdano. Gwnaed y penderfyniad hwn gan y llywodraeth heb unrhyw ymgynghori â phlant a phobl ifanc.
4. Nid oes unrhyw beth ar unrhyw ffurf wedi dod yn lle'r Ddraig Ffynci.
5. Gyda'r toriadau sylweddol i gyllidebau cynghorau lleol, mae pobl ifanc yn colli allan ar wasanaethau ieuenctid hanfodol.
6. Mae toriadau i gyllidebau cynghorau nid yn unig yn effeithio'n uniongyrchol ar wasanaethau ieuenctid statudol ac anstatudol, ond maent yn golygu bod pobl ifanc yn cael gwadu rhag cael y cyfle i ymgysylltu â democratiaeth.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Cyngor Ieuenctid Prydain (CIP) yw cyngor ieuenctid cenedlaethol y DU.
2. Ar hyn o bryd, nid yw UCMC yn gweithio'n glòs iawn â Chyngor Ieuenctid Prydain.
3. Mae CIP yn gweithio gyda rhwydweithiau o gynghorau ieuenctid lleol, i roi grym i bobl ifanc dan 25 oed, ble bynnag maen nhw byw, fel y gallant ddweud eu dweud a chael eu clywed.
4. Eu nod yw helpu pobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw; bod â llais ac ymgyrchu ar faterion maent yn credu ynddynt, eu hysbrydoli i gael effaith gadarnhaol ac ennill cydnabyddiaeth am eu cyfraniad positif i gymunedau, cymdeithas a'r byd.
5. Yn ystod y cyfnod etholiadau presennol, dylid gwneud pob ymdrech i ymgysylltu pobl ifanc â gwleidyddiaeth, a gwleidyddion â phobl ifanc.
6. Dylid cynnig cyfle i bobl ifanc ymgysylltu â democratiaeth.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylai UCMC weithio gyda Chyngor Ieuenctid Prydain, yn arbennig yn y cyfnod sy'n arwain at yr etholiad cyffredinol a'r un ar gyfer y Cynulliad, er mwyn ymgysylltu pobl ifanc â democratiaeth.
2. Dylai UCMC lobïo'r Cynulliad Cenedlaethol, gan alw arnynt i ail-greu'r Ddraig Ffynci neu rywbeth tebyg, ond gwell, fel mudiad annibynnol wedi ei arwain gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc.
3. Dylai UCMC lobïo awdurdodau lleol i neilltuo cyllid ar gyfer cynghorau ieuenctid lleol.

Dim TGAU i Chi

Cyflwynwyd gan: PGC UCM Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. O Fedi 2015 ymlaen, mae'n orfodol bod mewn rhyw fath o addysg ffurfiol hyd nes byddwch yn 18 oed.
2. Os ydych chi mewn addysg ran-amser, rhaid i chi dalu i gael sefyll neu ail-sefyll eich TGAU, beth bynnag fo'ch oedran.
3. Os ydych chi mewn addysg lawn-amser, cewch ail-sefyll TGAU am ddim neu cânt eu cynnwys yn y Fagloriaeth Gymreig newydd.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Mae addysg bellach yn ail gyfle mae llawer o fyfyrwyr ei angen i barhau â'u gyrfa neu i ddechrau un newydd.
2. Dylai fod gan bawb fynediad i addysg ac ni ddylid eu gwahardd oherwydd oblygiadau ariannol.
3. Mae gan fyfyrwyr bwysedd a ffactorau allanol eraill sy'n effeithio ar ganlyniadau eu harholiadau.
4. Dylai fod gan bob myfyrwyr y cyfle i astudio'n hyblyg ac ni ddylai fod rhaid iddynt ymgymryd â chwrs llawn-amser dim ond i ennill cymhwyster sylfaenol.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylai UCMC lobïo Llywodraeth Cymru a chyrff perthnasol yn y sector i sicrhau nad yw myfyrwyr yn cael eu cosbi am ddysgu ar sail ran-amser.
2. Dylai UCMC lobïo Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau, gan ei bod yn orfodol i fod mewn addysg hyd nes byddwch yn 18 oed, bod addysg bellach yn hygyrch, yn hyblyg ac wedi ei chyllido'n llawn.

Mae'n Amser am Ymgyrch Tai

Cyflwynwyd gan: PGC UCM Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. Mae Cymru ar hyn o bryd yn mynd drwy newid polisi o gymharu â Lloegr o ran tai, gyda'r Mesur Rhentu Tai yn mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd, ond nid yw'n debygol y bydd ei effeithiau i'w teimlo tan 2016/17.
2. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr ledled Cymru'n teimlo fod byw mewn tai o safon isel yn rhywbeth sy'n rhaid iddyn nhw ei wneud yn ystod eu hamser yn y Brifysgol.
3. Mae'r farchnad rentu breifat yn un sy'n creu cryn lawer o elw, gyda phrisiau'n cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, ond ni welwyd gwelliannau o ran safonau tai.
4. Bydd y mwyafrif o asiantaethau gosod eiddo yn codi ffioedd eithriadol o uchel am rentu eiddo, sef o leiaf £100 i bob tenant ar gyfartaledd, tra byddant ar yr un pryd yn codi ffi ar y landlord. Yn aml iawn, nid yw'r ffioedd hyn yn dryloyw yn y broses rentu.
5. Mae UCM DU newydd lansio adroddiad *Ready to Rent*. Roedd hyn gyda chymorth y Gwasanaeth Blaendal Tenantiaeth (TDS).

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Drwy ddylanwadu ar ddeddfwriaeth a pholisïau maniffesto yn y cyfnod sy' n arwain at etholiadau'r Cynulliad, mae gan UCM Cymru gyfle i gyfeirio polisi tai yng Nghymru yn y blynyddoedd sydd i ddod.
2. Bydd gan Gymru ddeddfwriaeth tai digon gwahanol i Loegr cyn bo hir i gyfiawnhau ei fersiwn ei hun o *Ready to Rent*.
3. Mae'r Mesur Tai a basiwyd llynedd wedi methu hyd yma yn ei ymdrechion i reoli ansawdd tai, gan fod cyngorau lleol yn dioddef o ddiffyg adnoddau a'u bod yn methu gwirio ansawdd eiddo er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth.
4. Ystyrir myfyrwyr i fod mewn tlodi cymharol os ydynt yn gwario mwy na thraean o'r arian sydd ganddynt i fyw arno ar rent, ac mae hyn yn effeithio ar nifer sylweddol o fyfyrwyr. Bydd y nifer yma'n cynyddu wrth i lefelau rhent godi.
5. Gellid gweithredu cap ar faint o rent a godir ar eiddo i fyfyrwyr pan gaiff hyn ei gysylltu ag eithriad rhag treth cyngor.
6. Gall talu ffioedd uchel i asiantaethau gosod eiddo wrth symud i mewn yn aml osod myfyrwyr mewn trafferthion ariannol, a'i gwneud yn anodd iddynt reoli eu harian.
7. Nid yw Cymru wedi bod â chyfeiriad polisi eglur yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran tai, sydd wedi arwain at ddiffyg ymgyrch genedlaethol ar y mater.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid defnyddio *Ready to Rent*; gallai undebau sydd mewn aelodaeth a Shelter Cymru greu *Ready to Rent* Cymru, i'w gyhoeddi tua diwedd 2016, a gwneud cais i TDS am bartneriaeth a chyllido ar gyfer hyn.
2. Dylai UCM Cymru ddechrau ffurfio polisi ar reoli rhenti.
3. Dylai UCM Cymru lobïo dros gael deddfwriaeth sy'n diddymu ffioedd asiantaethau gosod eiddo, gyda gofyn dros dro i gael ffioedd gweinyddol, blaendâl a geirda wedi eu harddangos ar ddeunydd hysbysebu tai ar rent (tebyg i'r hyn a wneir ar gyfer Tystysgrifau Perfformiad Ynni).
4. Dylid mandadu UCM Cymru i ymchwilio i'r defnydd o God Unipol a chodau atodol eraill ghan Undebau Myfyrwyr yng Nghymru.
5. Dylai UCM Cymru ymgyrchu yn y cyfnod sy'n arwain i fyny at Etholiadau'r Cynulliad i dwyn pwysedd ar Lywodraeth Cymru i osod amodau ar gyllido Awdurdodau Lleol (ALl) i ddarparu cyllido digonol ar gyfer timoedd archwilio/erlyn ym maes tai.
6. Dylid cynnig cefnogaeth i undebau myfyrwyr gynnal ffeiriau cynghori tai yn flynyddol, er mwyn addysgu myfyrwyr sy'n denantiaid ynglŷn â'u hawliau.

Datganoli sy'n gweithio ar gyfer Cymru

Cyflwynwyd gan: PGC UCM Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd bwerau dros ugain maes datganoledig, gan gynwys tai, iechyd ac addysg.
2. Mae llawer o'r pwerau datganoledig hynny'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau myfyrwyr, serch hynny, mae nifer fawr o'r penderfyniadau a wneir yn San Steffan nad ydynt wedi eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol yn dal i effeithio'n uniongyrchol ar fyfyrwyr yng Nghymru.
3. Mae llawer o ddinasyddion Cymru, a myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru, nad ydynt yn deall datganoli'n llawn a pha bwerau sydd gan y Cynulliad; dangosodd arolwg yn ddiweddar nad yw 40% o drigolion Cymru'n gwybod sut mae'r y GIG wedi ei ddatganoli.
4. Mae'r Cynulliad ar hyn o bryd yn ddibynnol ar gyllido ar ffurf grant bloc gan San Steffan i gyllido ei weithgareddau.
5. Nid yw fformiwla Barnett (y fformiwla a ddefnyddir i benderfynu lefel grant bloc Cymru gan San Steffan) yn addas i'w ddiben, a gellid dadlau fod Cymru'n dioddef o ddiffyg cyllido bob blwyddyn.
6. Nid oes gan Gymru bwerau datganoledig dros ei phrosesau etholiadol, yn wahanol i'r Alban.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif bod cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014/15 cymaint â £1.5biliwn yn llai mewn termau go iawn, o gymharu â 2010/11.
2. Mae toriadau gan San Steffan i grant bloc Cymru'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau myfyrwyr - er enghraifft, golygodd lleihad yng nghyllideb addysg ôl-16 o £65m yn 2014 doriad o £20 o AU a £45 o AB.
3. Mae disgwyl i Gymru gael pwerau codi-trethi, gyda threthi busnes yn cael eu datganoli'n llawn eleni, a threth stamp a thirlenwi'n mewn lle erbyn 2018.
4. Bydd y pwerau codi trethi hyn yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at ddarparu Llywodraeth Cymru â'r hyblygrwydd i gyfeirio arian a godir tuag at feysydd angen, ond bydd Cymru'n dal i fod heb y pwerau i godi incwm i lefel ddigonol.
5. Mae bod heb bwerau datganoledig dros ei brosesau etholiadol yn golygu na all y Cynulliad Cenedlaethol wella ymgysylltiad dinasyddion ag etholiadau, ac nid yw'n darparu unrhyw ryddid o ran agweddau ymarferol rhedeg etholiadau.
6. Datganolwyd pŵer i Gymru'n ddiweddar i gynnal refferendwm ar bwerau amrywio treth incwm, lle gallai'r Cynulliad ddewis ymestyn y bleidlais i bobl 16/17 oed, ond mae hyn wedi ei gyfyngu i'r refferendwm hwn yn unig ac ni chaiff ei ymestyn i etholiadau eraill Cymru.
7. Mae diffyg dealltwriaeth ymysg dinasyddion Cymru ynglŷn â ble mae'r pŵer ar gyfer penderfyniadau a datganoli yn arwain at deimlad o ddiffyg grym a diffyg dealltwriaeth o ran sut i fynd ati i ddylanwadu ar newid mewn gwleidyddiaeth.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylai UCM ymgyrchu'n gyhoeddus yn y cyfnod sy'n arwain at yr etholiad cyffredinol i bleidiau gwleidyddol y DU ymrwymo i ddatganoli pellach ar gyfer Cymru, ac i drefniant / fformiwla cyllido sy'n cwrdd ag anghenion Cymru a'i phobl.
2. Dylai UCM Cymru ddarparu adnoddau ar ddatganoli i undebau myfyrwyr, a lobïo'r Cynulliad Cenedlaethol i greu canllawiau hawdd i'w deall er mwyn addysgu myfyrwyr a phobl ifanc.
3. Dylai UCM Cymru barhau i ymgyrchu dros ddatganoli cyfrifoldeb etholiadol, fel y gall pobl 16 a 17 gael pleidlais ym mhob etholiad yng Nghymru.
4. Dylai UCM Cymru gynnal cynhadledd draws-bleidiol ar ôl yr etholiad er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg AS Cymru o'n gweledigaeth ddatganoledig.

Cymwysterau Cymru a'r Fagloriaeth Gymreig

Cyflwynwyd gan: PGC UCM Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. Mae ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y ddeddfwriaeth arfaethedig i sefydlu corff cymwysterau newydd i Gymru wedi cau.
2. O ganlyniad i hyn, sefydlwyd Cymwysterau Cymru.
3. Fel yr argymhellwyd yn yr Arolwg o Gymwysterau yng Nghymru, bydd Cymwysterau Cymru, i ddechrau, yn ymgymryd â swyddogaethau sicrwydd ansawdd sy'n gymharol â'r swyddogaethau rheoliadol sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd.
4. Yn y tymor canolig, argymhellir y bydd y corff newydd hefyd yn cymryd cyfrifoldeb dros gyflwyno cymwysterau megis TGAU, Lefel-A a'r Fagloriaeth Gymreig.
5. Bydd y cymhwyster AB cyfredol yn newid o'r ffurf bresennol i fel bod hanner y cymhwyster yn dod o'r Fagloriaeth Gymreig, chwarter o'r TGAU, gyda'r chwarter sy'n weddill naill ai'n TGAU neu Lefel-A ychwanegol, neu'n Gymwysterau Galwedigaethol.
6. Erbyn 2019, mae Cymwysterau Cymru'n disgwyl i holl ddarparwyr addysg bellach gynnig y cymhwyster newydd.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Tan 2015, bydd y cymwysterau cyfredol yn parhau heb fawr ddim newid, a byddant yn parhau i gael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru.
2. Ar hyn o bryd, ystyrir y Fagloriaeth Gymreig i fod yn rhywbeth negyddol gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr AB, ac mae'n bwnc amhoblogaidd.
3. Er bod y Fagloriaeth Gymreig newydd yn wahanol i'r hen un sydd mewn lle ar hyn o bryd, mae yno eisoes stigma negyddol yn bodoli parthed y Fagloriaeth Gymreig.
4. Mae rhai pryderon ynglŷn â sut y caiff y Fagloriaeth Gymreig ei marcio, oherwydd y caiff ei hastudio ar ffurf modiwl a phrosiect hunan-ddewisol. Mae'r pryder yn perthyn i ddarlithwyr a fydd yn marcio meysydd pwnc nad oes ganddynt fawr ddim gwybodaeth amdanynt.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylai UCMC lobïo Cymwysterau Cymru i sicrhau lle ar gyfer myfyriwr ar y bwrdd llywodraethu.
2. Dylai UCMC fonitro datblygiad Cymwysterau Cymru a sut gaiff y cymhwyster newydd ei gyflwyno, gan gynnwys y Fagloriaeth Gymreig, drwy sicrhau eu bod ar unrhyw grŵp llywio neu randdeiliaid a gaiff ei ffurfio.
3. Dylai UCMC weithio'n glòs ag Undebau AB a chynrychiolwyr dysgwyr i fonitro unrhyw gwynion a wnaed ynglŷn â'r system gymwysterau newydd a gweithredu ar unrhyw adborth yn unol â hynny.

Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yng Nghymru

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Cred y Gynhadledd:

1. Pe bai Llywodraeth Cymru'n torri'r cyllido mae'n ei ddarparu ar hyn o bryd, bydd yn effeithio'n negyddol ar 14,000 o fyfyrwyr.
2. Nid yw ardaloedd mwy gwledig a threfi myfyrwyr bach yn cynnig yr un cyfleoedd â dinasoedd i fyfyrwyr sy'n chwilio am waith i gyflenwi eu grant cynhaliaeth isel.
3. Nid oes yno unrhyw arweiniad ffurfiol ar gyfer pa grwpiau a ddylid eu blaenoriaethu ar gyfer cynhaliaeth ychwanegol; mae'r gronfa ariannol wrth gefn yn darparu canllawiau o'r fath ar gyfer benthyciadau brys yn ogystal â grantiau a cheisiadau mwy hir-dymor.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Mae'r gronfa ariannol wrth gefn yn cynnal ac yn galluogi cannoedd o fyfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau mewn Addysg Uwch.
2. Mae mynediad i'r gronfa ariannol wrth gefn yn effeithio ar ddargadwedd myfyrwyr ehangu mynediad; heb y gronfa mae perygl o golli demograffeg eang o fyfyrwyr.
3. Golyga'r pwysedd ariannol ar sefydliadau i ddarparu cynhaliaeth ariannol nawr a'r tebygolrwydd y bydd y Lwfans Myfyrwyr Anabl yn rhywbeth y bydd disgwyl i'r brifysgol ei ddarparu yn y dyfodol, y bydd yr elfen hon o'r GAWG yn dioddef toriad sylweddol.
4. Mae yno eisoes dystiolaeth y caiff arian CAWG ei gamddefnyddio i dalu am asesiadau Myfyrwyr Anabl.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid lobïo'r Cynulliad Cenedlaethol i beidio â diddymu na hyd yn oed lleihau'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn mewn Addysg Uwch.
2. Dylid mandadu UCM Cymru i gefnogi Undebau Myfyrwyr gyda'u hymgyrchoedd ar eu campysau.
3. Dylid mynd i'r afael â'r mater hwn gydag is-ganghellorion er mwyn sicrhau bod cynlluniau cyllido priodol mewn lle, pe bai angen eu gweithredu.
4. Dylid cynorthwyo undebau myfyrwyr i lobïo eu prifysgolion er mwyn sicrhau bod cynlluniau cyllido priodol mewn lle.

Marciwch fy Ngeiriau, Nid fy Enw

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Grŵp Llandrillo-Menai

Cred y Gynhadledd:

1. Mae UCM wedi ymgyrchu'n llwyddiannus i gael llawer o Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) i gyflwyno marcio anhysbys drwy ymgyrch 'Marciwch fy Ngeiriau, Nid fy Enw'.
2. Mae marcio anhysbys erbyn hyn yn nodwedd gyffredin mewn amryw o SAU.
3. Nid oes unrhyw golegau Addysg Bellach yng Nghymru'n cynnig system farcio anhysbys
4. Mae athrawon mewn colegau AB yn marcio gwaith eu myfyrwyr gan wybod yn union pwy sydd wedi 'sgrifennu pob aseiniad.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Caiff aseiniadau a wneir gan fyfyrwyr AB yn aml eu hasesu'n fewnol gan eu hathrawon.
2. Mae'n bosib fod gan athrawon farn â thuedd tuag at rai myfyrwyr, a gall y farn honno ddylanwadu ar y marc a roddir.
3. Gall barn â thuedd arwain at fyfyriwr yn derbyn marc nad ydynt yn ei haeddu, naill ai marc rhy isel neu farc rhy uchel.
4. Rhoddir y rôl o gadarnhau allanol, pan wneir hynny, yn aml i athro yn y coleg, a fydd yn fwy a thebyg yn adnabod y myfyriwr sydd wedi 'sgrifennu'r darn maent yn ei farcio, gan y byddant efallai'n dysgu pwnc gwahanol i'r myfyriwr hwnnw.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylai UCM Cymru lobïo Llywodraeth Cymru i gyflwyno marcio anhysbys mewn sefydliadau AB.
2. Dylai UCM Cymru alw am adolygiad o degwch asesiadau mewn colegau AB.
3. Dylai UCM Cymru ail-gyflwyno ymgyrch 'Marciwch fy Ngeiriau, Nid Fy Enw' ar gyfer colegau AB.

Mae prentisiaid yn gwybod beth sydd orau!

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Grŵp Llandrillo-Menai

Cred y Gynhadledd:

1. Mae Cymdeithas Genedlaethol y Prentisiaid yn gymdeithas sydd bellach wedi ei sefydlu ac yn gweithredu fel modd o glywed lleisiau prentisiaid yng Nghymru.
2. Mae gan GGyP rwydwaith ar draws y DU a Chymru sy'n gweithio ar y cyd ar ran prentisiaid ledled y wlad.
3. Ni ddylai Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol Cymru wneud penderfyniadau ar ran prentisiaid heb fewnbwn gan brentisiaid.
4. Gyda ffurfio CGP, mae gan brentisiaid lais cyfreithlon a phlatfform i sefyll arno er mwyn sicrhau bod eu barn yn cael ei mynegi. O ystyried hyn, nid oes rhaid i PGCC wneud penderfyniadau ar ran y grŵp hwn o fyfyrwyr.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Dylai PGCC barhau i weithio gyda ChGyP i sicrhau bod prentisiaid yn cael eu cynnwys yng ngwaith PGCC.
2. Dylai darparwyr addysg sy'n darparu prentisiaethau ymgeisio i fod yn aelodau o UCMC fel y gallant ymgysylltu'n llawn yn ein gweithdrefnau democrataidd.
3. Ateb dros-dro yw cael prentis ar PGCC er mwyn sicrhau bod prentisiaid yn cael eu cynnwys yn strwythurau a gwaith UCMC, gyda'r bwriad o edrych yn ofalus ar ymgysylltiad pellach prentisiaid o fewn ein strwythurau democrataidd.
4. Byddai cynnwys cynrychiolydd o GCP fel aelod o PGCC yn gwneud hyn.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid ychwanegu'r canlynol at Gyfansoddiad UCM Cymru: "Rheolau UCM Cymru/Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol UCM Cymru 2013-2014" darpariaeth 6, dan "Aelodaeth o Bwyllgor Gwaith Cenedlaethol UCM Cymru" sy'n dweud: 'Bydd gan PGCC y pŵer, drwy bleidlais unfrydol, i gyf-ethol "aelod arbennig" i eistedd ar y PGCC. Cyfetholir yr "aelod arbennig" o aelod cyfansoddiadol neu fudiad cyswllt, a bydd ganddo'r un hawliau ar PGCC ag "aelodau unigol". Bydd yr "aelod arbennig" yn eistedd ar PGCC tan yr etholir yr "aelodau unigol" yng Nghynhadledd Genedlaethol UCM Cymru.'
2. Dylai UCM Cymru gyf-ethol aelod o dîm arweinyddiaeth CGP, a etholir gan y gymdeithas genedlaethol, i eistedd fel "aelod arbennig" ar PGCC.
3. Caiff atebion hir-dymor i gynrychiolaeth prentisiaid o fewn PGCC eu hystyried yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mae Cymru angen system fenthyciadau ar gyfer ôl-raddedigion

Cyflwynwyd gan: PGC UCM Cymru

Cred y Gynhadledd:

1. Roedd y cyhoeddiad diweddar yn natganiad yr Hydref gan Lywodraeth y DU yn cynnig cyflwyno benthyciadau hyd at £10,000 ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yn Lloegr ac sy'n astudio cyrsiau ôl-raddedig unrhyw le yn y DU.
2. Mae addysg ôl-raddedig, yn hanesyddol, wedi bod yn ddrud ac anhygyrch i'r rheiny na allant fforddio ffioedd uchel, a gwelwyd gwahaniaethau cymdeithasol-economaidd o ran pwy sy'n astudio ar lefel ôl-raddedig.
3. Croesawyd y cyhoeddiad hwn fel symudiad tuag at wneud astudio ôl-raddedig yn fwy hygyrch, serch hynny mae hyn wedi ei gyfyngu i fyfyrwyr sy'n wreiddiol o Loegr yn unig.
4. Drwy fformiwla cyllido Barnett, dylai unrhyw gynnydd mewn gwariant ar gyllido addysg myfyrwyr olygu bod Cymru'n derbyn yr un lefel o gyllido i'w wario yn yr un maes.
5. Mae'r adolygiad presennol gan y llywodraeth i gyllido addysg a chynhaliaeth i fyfyrwyr (adolygiad Diamond) yn edrych yn fanwl ar gyllido addysg ôl-raddedig fel rhan o'i gylch gorchwyl.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Creda UCM Cymru y gallai Llywodraeth Cymru oedi penderfyniad ar fenthyciadau ôlraddedigion tan ddiwedd adolygiad 'Diamond' yn 2016; ac felly ni weithredid unrhyw system a gynigir tan 2018/19.
2. Mae peryg y gallai ffug-farchnad ymddangos, lle bydd Prifysgolion yn cynyddu cost holl gyrsiau ôl-raddedig i o leiaf £10,000, er mwyn manteisio o'r benthyciad llawn gan y myfyrwyr a fydd yn astudio'r cwrs hwnnw.
3. Os na chynigir benthyciad cyffelyb i fyfyrwyr o Gymru, gellid eu 'prisio allan o'r system', gan ei gwneud yn amhosib iddynt fforddio cost gynyddol astudiaeth ôl-raddedig.
4. Bydd unrhyw oedi mewn ffurfio'r system fenthyciadau ar gyfer ÔR yng Nghymru yn arwain at genhedlaeth o fyfyrwyr Cymreig na allant fforddio astudiaeth ôl-raddedig gan eu gadael dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion yn Lloegr.
5. Mae'r system fenthyciadau ÔR yn Lloegr yn argymell cyfyngu hygyrchedd benthyciadau i'r rheiny sydd dan 30 oed, gan gamwahaniaethu yn erbyn y rheiny sy'n dychwelyd i addysg yn hwyrach yn eu bywydau.
6. Mae Llywydd UCM Cymru wedi cyflwyno papur i'r Gweinidog Addysg yn amlinellu'r angen am system fenthyciadau ÔR ar gyfer Cymru sydd ddim yn cyfyngu argaeledd ar sail oedran neu ddewis o bynciau.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid mandadu Llywydd UCM Cymru i lobïo Llywodraeth Cymru'n gyhoeddus i gyflwyno system fenthyciadau ÔR yng Nghymru, ynghyd ag ymrwymiad i sefydlu system erbyn diwedd y flwyddyn academaidd.

Arian yn yr Atig

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor

Cred y Gynhadledd:

1. Bod nifer sylweddol o fyfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau AU yn byw mewn llety yn y Sector Rentu Breifat (SRB), sef yr hyn y cyfeirir atynt yn aml fel Tai Aml Ddeiliad.
2. Canfu adroddiad Tai Addas i Astudio UCM mai rhent ar gyfartaledd y rheiny a ymatebodd oedd £366 y mis, gyda dim ond 53% ohonynt yn teimlo fod hynny'n werth da am eu harian.
3. Mae llety myfyrwyr yn aml heb ei gynnal yn ddigonol, ac mae hyn yn effeithio'n negyddol ar ansawdd bywyd a chyrhaeddiad academaidd y tenantiaid, yn ogystal ag anharddu'r gymuned leol.
4. Canfu adroddiad Tai Addas i Astudio mai'r rheiny oedd yn byw yn y sector ar rent yn gyffredinol oedd y lleiaf tebygol o bob grŵp i gytuno bod eu llety mewn cyflwr da (64 y cant).
5. Gwelwyd toriad o 3.4% yng nghyllidebau Awdurdodau Lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, sef cyfanswm o £146m, a fydd yn parhau i effeithio ar allu Awdurdodau Lleol i fonitro a gorfodi safonau yn y SRB.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Mae llawer yn gweld llety o ansawdd gwael fel rhywbeth sy'n rhaid iddynt ei oddef fel myfyrwyr yn ystod eu hamser yn y Brifysgol.
2. Mae problemau parhaus a chanfyddiadau negyddol o fyfyrwyr yn byw yn y gymuned wedi arwain at gyfarwyddiadau statudol sy'n cyfyngu ar dwf tai wedi eu rhannu mewn rhai ardaloedd penodol o Loegr.
3. Mae tenantiaid, ar y cyd, yn cyfrannu symiau sylweddol i bocedi landlordiaid, ond yn aml, ni chaiff yr arian yma ei fuddsoddi mewn cynnal a chadw'r eiddo maent yn eu rhentu i fyfyrwyr.
4. Mae cartref o safon dda yn hanfodol bwysig i sicrhau y gall myfyrwyr lwyddo mewn addysg uwch.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylai UCMC alw ar bleidiau gwleidyddol yng Nghymru i ymrwymo i ddarparu awdurdodau lleol â chyllid ac adnoddau digonol er mwyn sicrhau y gall Swyddogion Tai orfodi a monitro safonau yn y sector rentu breifat.

Nid yw LCA a GDLlC yn ddigon da!

Cyflwynwyd gan: Undebau Myfyrwyr Coleg Sir Gâr a Grŵp Llandrillo-Menai

Cred y Gynhadledd:

1. Os ydych yn gymwys i dderbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLlC), yr uchafswm y gallwch ei derbyn dros y flwyddyn yw £1,500.
2. Caiff GDLlC ei dalu fesul tair rhan gydol y flwyddyn, ac nid ydych yn gymwys i dderbyn y swm llawn oni fyddwch yn bresennol am fwy na 92% o'r amser, ond mae'r canran hwn yn amrywio o goleg i goleg.
3. Os ydych yn gymwys i dderbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA, y mwyaf y gallwch ei dderbyn yw £30 yr wythnos, ond rhaid i chi fod yn bresennol am 100% o'r amser.
4. Caiff LCA ei dalu fesul pythefnos.
5. Os ydych chi'n astudio llawn-amser mewn addysg bellach, nid ydych yn gymwys i dderbyn Lwfans Ceisio Gwaith (LCG) na budd-dâl tai.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Mae myfyrwyr hŷn, diwaith, sy'n dychwelyd i addysg yn aml â theuluoedd i'w cynnal.
2. Nid yw GDLlC yn cwrdd â chost cynnal teulu a chartref.
3. Caiff GDLlC ei dalu mewn tair rhan, ac ni thelir y gyntaf tan fis Hydref.
4. Mae myfyrwyr yn aml yn gorfod gofyn i athrawon unigol eu marcio'n bresennol, os nad ydynt wedi gwneud hynny'n gywir, er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y taliadau LCA maent yn deilwng iddynt.
5. Mae llawer o gyrsiau, yn arbennig rhai galwedigaethol, yn gofyn am ffioedd ar ddechrau'r cwrs, ar gyfer cyfarpar hanfodol, costau cudd ar gyrsiau a theithiau gorfodol.
6. Dylai fod gan bawb yr hawl i addysg, a ni ddylent fethu allan ar hyn oherwydd rhwystrau ariannol.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylai UCM Cymru lobïo Llywodraeth Cymru i wella'r system gyfredol ar gyfer cyllido myfyrwyr mewn Addysg Bellach.
2. Dylai'r Dirprwy Lywydd lobïo Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer taliadau GDLlC.
3. Dylai UCM Cymru gefnogi Undebau Myfyrwyr AB mewn herio uwch-reolwyr er mwyn sicrhau bod cofrestrau'n cael eu cwblhau'n gyson.
4. Dylai UCM Cymru lobïo Llywodraeth Cymru i edrych yn fanwl ar y system gyllido myfyrwyr
5. Dylai UCM Cymru sicrhau na chaiff unrhyw systemau benthyciadau eu cyflwyno mewn AB.

Mae myfyrwyr yn ddefnyddwyr gwasanaethau hefyd

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor

Cred y Gynhadledd:

1. Yng ngwerth cyhoeddus y GIG, ac y dylai'r gwasanaeth iechyd barhau i fod yn gyhoeddus, yn atebol ac yn addas ar gyfer ei ddiben at y dyfodol.
2. Bod y GIG a gwasanaethau iechyd lleol yn newid ar draws Cymru er mwyn cwrdd â'r her gynyddol sy'n wynebu'r GIG er mwyn cwrdd â'r galw.
3. Mae'r GIG yn wynebu toriadau o 8.6% yng Nghymru, sy'n ddyfnach nag mewn unrhyw ran arall o'r DU, sydd wedi gweld ad-drefnu gwasanaethau a cholli rhai gwasanaethau lleol er mwyn lleihau costau.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Mae yno dros chwarter miliwn o fyfyrwyr yng Nghymru, a byddant i gyd yn cael mynediad i'r GIG ar ryw adeg yn ystod eu hastudiaethau.
2. Pasiodd Undeb Myfyrwyr Aberystwyth gynnig o ddiffyg hyder ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda oherwydd diffyg ymgynghori ac ymgysylltiad â'r cyhoedd dros ad-drefnu gwasanaethau ar lefel eang ar draws canolbarth Cymru.
3. Collwyd gwasanaethau iechyd rhywiol ac iechyd meddwl mewn cymunedau lleol a all greu rhwystrau ar gyfer myfyrwyr a defnyddwyr eraill y gwasanaethau hyn sy'n ceisio mynediad i gymorth hanfodol.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid mandadu UCMC i ddatblygu canllawiau ar ymgysylltu a chanfod gwasanaethau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, megis Cynghorau Iechyd Cymunedol a Byrddau Iechyd Lleol.
2. Dylai UCMC weithio i sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yn ymgysylltu â sefydliadau ac Undebau Myfyrwyr o ran newidiadau i wasanaethau'r GIG.
3. Dylai UCMC gynnig cefnogaeth i UM weithio gyda Byrddau Iechyd Lleol naill ai drwy brosiectau, ymgyrchoedd neu fentrau unigol, neu lle bo hynny'n briodol, drwy gynrychiolaeth ffurfiol ar Fyrddau.
4. Dylid cefnogi galwadau gan Lywydd Coleg Brenhinol Nyrsio yng Nghymru, Tina Donnelly, i sefydlu Comisiwn GIG er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y GIG yng Nghymru.

Gad i ni siarad am ryw, cariad!

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor

Cred y Gynhadledd:

1. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn ymdrin ag anatomi, oed aeddfedrwydd, agweddau biolegol o atgenhedlu rhywiol a'r defnydd o hormonau i reoli a hyrwyddo ffrwythlondeb, yn ogystal â gwybodaeth ynglŷn â heintiau a drosglwyddir drwy ryw.
2. Mae cynnwys ABCh ac Addysg Rhyw yn seiliedig ar Ganllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Dylai Addysg Rhyw gynnwys gwybodaeth am berthynas rywiol a rhamantaidd iach, rhywioldeb nad yw'n heterorywiol a hunaniaeth draws*, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall eu teimladau eu hunain a theimladau pobl eraill.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid mandadu UCMC i fabwysiadu Siartr Addysg Perthynas Rywiol, fel y gwnaed gan UCM DU.
2. Mandadu UCMC i lobïo Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud safiad mwy cadarn o ran y cwricwlwm ynglŷn â'r addysg rhyw a gaiff ei dysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd drwy'r adolygiad cwricwlwm sy'n dod.
3. Mandadu UCMC i redeg ymgyrch i bontio'r bylchau yng ngwybodaeth myfyrwyr AU ac AB nad ydynt wedi derbyn addysg rhyw gynhwysfawr, a mynd ati i chwalu'r mythau a'r anwiredd er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.
4. Mandadu UCM Cymru i lobïo'r Fforwm Addysg Rhyw i ymestyn ei waith at Gymru.

Lleoliad Digwyddiadau UCM Cymru

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

Cred y Gynhadledd:

1. Fod UCM Cymru'n cynnal nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.
2. Mae'r rhain yn cynnwys Cynhadledd Maes, y Talwrn, Cynhadledd Genedlaethol a chyfarfodydd o PGCC.
3. Mae UCM Cymru hefyd yn trefnu a chynnal digwyddiadau hyfforddiant a derbyniadau.
4. Mae sefydliadau AU ac AB Cymru wedi eu lleoli ar draws y wlad i gyd.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Na ddylai'r baich ariannol (teithio, llety a.y.b.) a'r amser a dreulir yn teithio gael ei osod ar yr un grwp o undebau, dro ar ôl tro.
2. Mae coridor De Cymru wedi bod yn ddewis poblogaidd fel lleoliad ar gyfer cynnal digwyddiadau.
3. Dylai Hyfforddiant Pwyllgorau Rhyddhad gymryd i ystyriaeth y pellter sy'n rhaid i aelodau ei deithio.
4. Byddai o fudd i UCM Cymru a'i aelodau pe cynhelid mwy o ddigwyddiadau mewn Undebau Myfyrwyr ledled Cymru.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid cynnal cyfarfodydd PGC UCM Cymru ar safleodd yr aelodau cyfansoddiadol, megis UM neu Goleg, a hynny yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru yn eu tro.
2. Dylid cynnal Talwrn UCM Cymru ar safleodd yr aelodau cyfansoddiadol, a hynny yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru yn eu tro.
3. Dylid cynnal Cynhadledd Genedlaethol UCM Cymru yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru yn eu tro.
4. Bod lleoliad pob digwyddiad hyfforddiant yn cymryd i ystyriaeth trefniadau teithio'r cynrychiolwyr a bod PGCC yn cytuno ar leoliadau. Dylid rhoi ystyriaeth lawn i'r angen am gynnal yr un hyfforddiant mewn gwahanol leoliadau er mwy caniatáu i aelodau fynychu'r digwyddiadau hyn.
5. Dylai PGCC gymeradwyo pob un o'r dyddiadau a lleoliadau hyn, yn dilyn argymhellion staff UCM Cymru.

Diddymu Troseddau Casineb yng Nghymru

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

Cred y Gynhadledd:

1. Diffinnir trosedd gasineb fel unrhyw digwyddiad a ganfyddir gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall i fod â chymhelliant o ragfarn neu gasineb wrth ei wraidd.
2. Prin yw'r troseddau casineb a gaiff eu reportio.
3. Mae llawer o fyfyrwyr yn teimlo na allant reportio troseddau casineb i'r heddlu.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Gall undebau myfyrwyr fod yn ganolfannau ar gyfer reportio troseddau casineb.
2. Nid yw Llywodraeth Cymru'n blaenoriaethu lleihau troseddau casineb, yn arbennig tu allan i ranbarth De Cymru.
3. Mae sefydliad Cymorth i Ddioddefwyr wrthi ar hyn o bryd yn casglu ystadegau ar droseddau casineb i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
4. Gall undebau myfyrwyr helpu i gasglu'r ystadegau hyn drwy ddefnyddio gwefan Cymorth i Ddioddefwyr.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid mandadu swyddogion UCMC neu'r rheiny a ddirprwyir ganddynt i gyfarfod â sefydliad Cymorth i Ddioddefwyr.
2. Dylid gweithio gyda Chymorth i Ddioddefwyr i helpu canolfannau cynghori undebau myfyrwyr i fod yn ganolfannau ar gyfer reportio troseddau casineb.
3. Dylid parhau i lobïo Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu lleihau troseddau casineb. Anfoner at Lywydd Undeb y Myfyrwyr undeb.llywydd@aber.ac.uk.

Mae Deddf 1994 yn Peri Problemau

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

Cred y Gynhadledd:

1. Mae Deddf Addysg 1994 yn datgan "na ddylai unigolyn ddal swydd sabothol mewn undeb, na swydd gyflogedig etholedig mewn undeb, am fy na chyfanswm o ddwy flynedd yn y sefydliad hwnnw;"
2. Golyga hyn na all Undeb Myfyrwyr dalu eu swyddogion etholedig rhan-amser heb fod hyn yn cyfrif fel un o'u blynyddoedd fel swyddog dan Ddeddf Addysg 1994.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Tra'n bod o blaid y syniad o gyfyngu swyddogion llawn-amser mewn undebau myfyrwyr i ddwy flynedd yn y swydd, mae methu talu swyddogion rhan-amser yn cyfyngu ar y nifer o bobl a fyddai'n ystyried ymgeisio am y swyddi hyn.
2. Yn ôl ymchwil 'Punt yn eich Poced' UCM Cymru, mae dros hanner myfyrwyr yn aml yn gofidio am gwrdd â chostau byw sylfaenol.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylai UCM Cymru lobïo Llywodraeth Cymru i newid Deddf Addysg 1994 er mwyn ei gwneud yn eglur y dylid gallu talu swyddogion undeb myfyrwyr rhan-amser heb fod hynny'n cyfrif tuag at eu huchafswm o ddwy flynedd.
2. Dylid diffinio swyddogion rhan-amser fel y rheiny y byddai disgwyl iddynt weithio llai na 16 awr yr wythnos.

Creu mandad i weithredu ar doriadau i'r LMA

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Cred y Gynhadledd:

1. Bod San Steffan wedi bygwth toriadau i'r Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA) yn ogystal ag argymhell y dylai prifysgolion ddarparu'r gynhaliaeth ychwanegol honno eu hunain.
2. Golyga toriadau i'r LMA a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAWG) y bydd disgwyl i brifysgolion lenwi'r bwlch hwnnw o'u cyllid eu hunain.
3. Bydd hyn yn gosod straen ar yr hyn sydd eisoes yn adnoddau prin.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Na fydd yno ddigon o arian ar gael i gynnal y LMA a'r GAWG yn ddigonol.
2. Bydd y toriadau hyn yn niweidio unrhyw fentrau ehangu mynediad sydd gan brifysgolion mewn lle.
3. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng myfyrwyr sy'n parhau i astudio oherwydd y gynhaliaeth maent yn ei derbyn drwy'r LCA, a'r rheiny sydd angen cymorth ariannol ond sy'n methu ei gael yn gadael eu hastudiaethau.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Dylid cynnig cefnogaeth i undebau myfyrwyr annog eu myfyrwyr i lobïo eu AS cartref ac yn etholaeth eu prifysgol.
2. Dylid mynd i'r afael â'r mater hwn gydag is-ganghellorion er mwyn sicrhau bod cynlluniau cyllido priodol mewn lle.
3. Dylid cynorthwyo undebau myfyrwyr i lobïo eu prifysgolion er mwyn sicrhau bod cynlluniau cyllido priodol mewn lle.

Cefnogaeth arbenigol wedi ei hymchwilio ar gyfer sefydliadau sy'n uno

Cyflwynwyd gan: Undeb Myfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Cred y Gynhadledd:

1. Mae sawl sefydliad wedi uno yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac mae rhagor ohonynt ar y gorwel.
2. Mae undebau'n aml yn ei chael yn anodd ymdopi â'r uniad.
3. Mae undebau'n wynebu llawer o anawsterau wrth uno, megis daearyddiaeth, ymdopi â gweithredu mewn dwy sector, a rhwystrau sefydliadol.

Cred y Gynhadledd ymhellach:

1. Nid oes mo'r fath beth â 'llawlyfr' ar sut i weithio drwy uno sefydliadau a'r materion staffio a all godi.
2. Mae angen cynnal ymchwil i'r heriau daearyddol a hanesyddol a wynebir gan undebau.

Penderfyna'r Gynhadledd:

1. Mae angen creu arfau a chefnogaeth wedi ei theilwra'n benodol ar gyfer undebau myfyrwyr cyn ac ar ôl uno sefydliadau.
2. Mae angen teilwra'r gefnogaeth hon ar gyfer gwahanol feintiau o undebau (o ran staff yn ogystal â grant bloc).
3. Mae angen cymorth penodol ar golegau sy'n uno â sefydliadau AU.
4. Mae angen creu rôl sy'n arbenigol mewn cefnogaeth i undebau wrth i'r dirwedd barhau i newid yn sgil mwy o uniadau.